



Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18



CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

Cynnwys

1. Cyflwyniad gan yr Arweinydd	2
2. Crynodeb o'r Flwyddyn gan ein Prif Weithredwr Dros Dro	4
3. Crynodeb o'n Cynnydd o ran Cyflawni'r Amcanion Llesiant 2017/18	10
4. Cynnydd manylach ar ein Hamcanion Llesiant 2017/18	11
5. Cymharu Perfformiad 2017/18	32
6. Rheoli eich Arian 2017/18	33
7. Sut rydym yn gweithio i wella cydraddoldeb a sicrhau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	36
8. Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr wrthym	42
9. Sut i gysylltu â ni a sut y gallwch gyfranogi	43



Arweinydd y Cyngor, Y Cyng. David Poole

Fel Arweinydd un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru, pryd bynnag y caf gyfle fel hwn i oedi a myfyrio ac ystyried y nifer fawr o lwyddiannau a gafwyd dros y 12 mis diwethaf ynghyd â'r hyn sy'n o'n blaenau ni, mae maint ac amrywiaeth yr hyn rydym wedi'i gyflawni bod amser yn gwneud argraff arnaf.



Yn ddiau, roedd blwyddyn ariannol 2017/18 yn un ddiddorol a heriol. Ymhlith rhai o'n cyflawniadau allweddol mae'r canlynol:

- Mae ein rhaglen uchelgeisiol Ysgolion yr 21ain Ganrif yn dod â manteision sylweddol ledled y fwrdeistref sirol.
- Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd da a byddaf yn parhau i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd Caerffili drwy'r dull cydweithredol hwn.
- Parheir i wneud cynnydd sylweddol ran cyflawni rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC), ac mae tua £145 miliwn wedi'i fuddsoddi i wella cyflwr cartrefi ein cyngor hyd yma.
- Rydym hefyd wedi chwarae ein rhan wrth amddiffyn ein trigolion mwyaf agored i niwed, gyda'n tîm gwasanaethau cymdeithasol yn cael canlyniadau arolygu cadarnhaol, sy'n dangos ansawdd uchel y gofal a'r cymorth y mae ein trigolion yn eu cael o ddydd i ddydd.

Mae'n amhosibl rhestru pob un o'n cyflawniadau a'n dyheadau mewn cyn lleied â hyn o le, ond dyma flas ar rai o'r materion allweddol rydym yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun ehangach, mae Llywodraeth Leol yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cyfnod parhaus o gyni cyllidol o hyd a hynny ar ôl gwneud arbedion gwerth mwy nag £80m yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r angen parhaus i ddod o hyd i arbedion sylweddol pellach ond gan gynnal ein gwasanaethau ar yr un pryd yn her anodd iawn a dyma brif ffocws ein syniadaeth gyfredol.

Mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet a minnau wedi dechrau ar raglen wella hollgynhwysfawr ac rydym yn cydnabod, er mwyn i ni symud ymlaen, fod angen i ni gael gweledigaeth glir a set gadarn o flaenoriaethau sy'n gosod y naws i'r sefydliad cyfan.

Mae 'Ymrwymadau'r Cabinet', a ddatblygwyd yn ddiweddar, sy'n nodi saith addewid allweddol a fydd yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn rhan allweddol o'r dull hwn o weithredu. Mae hwn yn gam dewr ac rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i ni fod yn atebol drwy gyflawni'r ymrwymadau hyn ym mhopeth a wnawn.

Rydym hefyd wedi mabwysiadu set newydd o egwyddorion ariannol a fydd yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau'r awdurdod ac yn dylanwadu arnynt wrth i ni geisio ymdopi â'r cyfnod ariannol anodd sy'n ein hwynebu yn y dyfodol

Rydym hefyd yn ailfeddwl yn sylfaenol am y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae'r cyngor yn cydnabod na allwn wneud pethau fel rydym wedi'u gwneud yn y gorffennol mwyach. Felly, mae angen i ni adolygu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau yn llwyr, er mwyn bodloni gofynion ein cymunedau sy'n newid.

Bydd ymgysylltu ac ymgynghori yn rhan allweddol o'r broses hon, felly rydym yn bwriadu cynnal cyfres o sgysiau â'n cymunedau er mwyn iddynt helpu i lywio'r ymagwedd newydd hon tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

Rydym hefyd yn ystyried datblygu 'hybiau cymunedol' newydd a fydd yn sicrhau bod trigolion yn cael y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt yng nghanol eu cymunedau eu hunain.

Mae hwn yn gyfnod heriol a chyffrous ac mae teimlad pendant ym mhob rhan o'r cyngor, o'r diwedd, ein bod yn symud ymlaen unwaith eto ar ôl wynebu cyfnod anodd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Rwy'n falch fy mod yn arwain yr awdurdod hwn ac rwy'n ymrwymedig i sicrhau mai Caerffili yw un o'r awdurdodau lleol blaenllaw yng Nghymru, sy'n gwasanaethu ein trigolion ac yn sicrhau bod cymunedau yn parhau i fod yn gydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y Cyng. Dave Poole

Arweinydd



Crynodeb o'r Flwyddyn 2017/18

Gan ein Prif Weithredwr dros dro Christina Harrhy

Unwaith eto yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi wynebu llawer o heriau a chael llawer o lwyddiannau, sydd oll wedi digwydd yng nghydestun gostyngiadau pellach i'n cyllidebau fel rhan o'r cyni cyllidol y mae'r DU yn parhau i'w wynebu. Ers 2008/09 mae'r Cyngor wedi lleihau ei gyllidebau o £82m a dros y pum mlynedd nesaf bydd angen gwneud arbedion pellach gwerth £41m. Felly, mae angen i'r Cyngor sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gynaliadwy ac y byddwn yn gallu darparu'r nifer fawr o wasanaethau a ddarperir gennym ar hyn o bryd i'n dinasyddion bob dydd. Rydym wedi sefydlu Portffolio Gwella Busnes, sy'n edrych yn ffioensig ar yr hyn y gallwn ei wneud a sut y gallwn ei wneud yn wahanol. Mae nifer o feysydd allweddol eisoes wedi'u nodi y byddwn yn eu datblygu dros y 12 mis nesaf.



Yn gynharach eleni, cymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol sy'n nodi'n glir ein blaenoriaethau allweddol, y byddwn yn canolbwyntio ar eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Y blaenoriaethau hyn yw:

1. Gwella cyfleoedd addysg i bawb.
2. Galluogi cyflogaeth.
3. Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella llesiant pobl.
4. Hybu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n gwella cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

5. Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
6. Helpu dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu llesiant.

Rydym eisoes wedi dechrau cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Yn gynharach yn y flwyddyn cymeradwyodd y Cyngor llawn gytundeb cydweithredu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel un o'r 10 Cyngor yn Ne-ddwyrain Cymru sy'n ffurfio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae'r Bargaen Ddinesig yn cynnwys buddsoddiad gwerth £1.2 biliwn, a ddefnyddir i wella perfformiad economaidd y ranbarth. Am bob punt a fuddsoddir, bwriadwn ddenu bedair gwaith y swm hwnnw o'r sector preifat.

Bydd y buddsoddiad hwn yn canolbwyntio ar sawl thema, gan gynnwys datblygu system drafnidiaeth integredig er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu teithio ledled y rhanbarth. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynigiwr llwyddiannus a fydd yn darparu Metro De Cymru, a fydd yn cyflwyno trenau newydd ac yn sicrhau bod gwasanaethau rheilffordd yn rhedeg yn amlach ledled y rhanbarth, gan gynnwys llinell Rhymni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae themâu buddsoddi eraill yn cynnwys: cefnogi arloesedd a seilwaith digidol, datblygu sgiliau a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, hyrwyddo menter a thwf busnes a gweithgarwch adfywio, ehangach yn y cymunedau yn ein cymoedd. Bydd hyn yn helpu i greu 25,000 o swyddi newydd ledled y rhanbarth. Nodwyd y gweithgareddau rydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt ledled y rhanbarth yn fanylach yn y Cynllun Busnes y cytunodd pob un o'r 10 cyngor arno yn ddiweddar.

Mae cynlluniau eisoes yn cael eu llunio i ddatblygu cronfa buddsoddi mewn tai er mwyn rhyddhau safleoedd nad ydynt yn ddichonadwy ar hyn o bryd, yn enwedig yn ardaloedd gogleddol Blaenau'r Cymoedd. Mae cynllun sgiliau rhanbarthol hefyd yn cael ei ddatblygu sydd â'r nod o gynnig miloedd o brentisiaethau. Mae cynlluniau hefyd ar waith i wella Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog er mwyn i'r orsaf allu derbyn y trenau ychwanegol a gânt eu gweithredu fel rhan o gynigion y "Metro" newydd ar gyfer llinellau rheilffordd y cymoedd.

Rydym hefyd yn gweithio i ddatblygu cynllun datblygu strategol a fydd yn disodli ein cynllun datblygu lleol. Bydd y cynllun hwn yn ystyried seilwaith mawr ar lefel ranbarthol, gan sicrhau bod gan y fwrdeistref sirol a'r rhanbarth y seilwaith tai a chyflogaeth sydd ei angen i gefnogi twf economaidd. Mae'r Fargen Ddinesig yn gyfle cyffrous iawn i'r fwrdeistref sirol, ei thrigolion a busnesau a bwriadwn sicrhau y bydd yn dod â'r manteision mwyaf posibl i'r rhanbarth.

Ar ôl ymgynghori'n helaeth, yn ddiweddar cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Adfywio newydd ar gyfer 2018-2023 sy'n nodi ein cynlluniau i adfywio'r fwrdeistref sirol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru mae nifer o "ganolfannau twf" ledled y fwrdeistref sirol wedi'u nodi, y bwriadwn eu defnyddio i sicrhau arian grant gan Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill er mwyn cyflawni ein cynlluniau twf.

Mae Uwchgynllun Basn Caerffili hefyd yn nodi rhai cynigion cyffrous a fydd yn sicrhau bod Caerffili a'r fwrdeistref sirol yn gyffredinol yn chwaraewr ac yn gyrchfan allweddol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mwy na £200m yn ei stoc dai, gan wneud gwelliannau sylweddol i adeiladwaith mewnol ac allanol mwy na 10,000 o eiddo'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Rydym yn gwneud cynnydd da ac yn hyderus y byddwn yn cydymffurfio â dyddiad cwblhau Llywodraeth Cymru, sef 2020. Mae ardaloedd yn cael eu trawsnewid yn llwyr gan y gwaith hwn sy'n cael ei ategu gan gynlluniau adfywio lleol sydd â'r nod o wella'r ardal leol. Mae ardaloedd megis Parc Lansbury yn edrych yn wahanol iawn o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn ac mae'r adborth gan ein tenantiaid wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae anghenion ein poblogaeth hŷn a'r rhai sy'n agored i niwed yn cael eu diwallu'n dda iawn gan ein tîm gwasanaethau cymdeithasol ymroddedig. Cyflwynwyd sawl darn allweddol o ddeddfwriaeth genedlaethol dros y 12 mis diwethaf sydd wedi ysgogi nifer o newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio. Gwyddom y bydd y gwasanaeth yn dod o dan bwysau sylweddol yn y dyfodol a dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ystyried sut y gallwn weithio'n agosach gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth lechyd er mwyn sicrhau gwasanaethau cwbl integredig.



Roedd yn bleser gennym groesawu'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, i agor ein hysgol newydd i ddisgyblion 4-18 oed, sef Ysgol Idris Davies, yn Rhymni ar ddechrau 2018. Yr ysgol hon yw canlyniad diweddaraf y rhaglen fuddsoddi gwerth £56m rydym yn ei chyflawni o dan gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif gan weithio gyda Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ynghylch ein rhaglen ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion yn y dyfodol a fydd yn sicrhau rhagor o fuddsoddiad a gwelliannau i'n darpariaeth addysg dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Phenaethiaid a'u staff, ynghyd â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i godi safonau cyrhaeddiad addysgol. Ni fydd hyn yn digwydd dros nos, ond mae rhai newidiadau cadarnhaol bellach yn dechrau dod i'r amlwg. Yn ddiau, mae hyn yn faes y byddwn yn parhau i ganolbwyntio arno dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, am fod sicrhau bod ein plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn hollbwysig i ni.

Y rhwydwaith ffyrdd ledled y fwrdeistref sirol yw ein hased mwyaf ac yn ôl ym mis Mehefin 2017 cofnodwyd tymereddau a oedd yn fwy na 30 gradd Celsius ledled y sir. Dychwelodd y tymereddau uchel hyn yn ystod haf 2018 gan achosi i rai o'n ffyrdd, yr oedd wyneb newydd ei roi arnynt, i doddi. Hefyd, yn ystod mis Chwefror 2018, cofnodwyd y tywydd oeraf ers blynnyddoedd lawer, ynghyd â'r eira dyfnaf a welwyd ers 1982. Ymatebodd staff ym mhob rhan o'r cyngor yn eithriadol o dda, gan gadw'r fwrdeistref sirol yn ddiogel a sicrhau bod trafndiaeth yn parhau i symud yn ystod y tywydd garw. Roedd aelodau o'r cyhoedd yn werthfawrogol iawn, ac adlewyrchwyd hyn yn y nifer sylweddol o sylwadau cadarnhaol a gafwyd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod hydref 2017, gwnaethom ddechrau gwaith ar gylchfan Pwll-y-Pant yng Nghaerffili. Hon yw'r gyffordd fwyaf strategol sydd gennym yn y fwrdeistref sirol, sy'n gwasanaethu cannoedd o filoedd o gerbydau bob dydd.

Derbyniwyd llawer o gwynion ynghylch y gwaith ffordd mawr a gyflwynwyd ar y gylchfan ac, ar ôl gwranddo'n ofalus ar y gymuned fusnes leol, ailgynlluniwyd y rhaglen adeiladu yn llwyr er mwyn lleihau'r effaith ar y gymuned a busnesau cymaint â phosibl lle y gellid gwneud hynny. Ein nod yw cwblhau'r gwaith cyn Nadolig 2018.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn gweithio'n agos gyda thrigolion er mwyn eu helpu i ailgylchu eu gwastraff. Er bod ein perfformiad cyffredinol o ran ailgylchu gwastraff yn dda iawn (ar ychydig dros 66% ar hyn o bryd), rydym yn parhau i wynebu problem gyda'r lefelau halogi uchel a achosir gan drigolion sy'n rhoi'r eitemau anghywir yn eu bin ailgylchu. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y contractwr prosesu deunydd ailgylchu yn gwrthod ailgylchu'r gwastraff ac mae'n costio miloedd o bunnau i'r Cyngor ei drin bob blwyddyn. Felly, rydym yn canolbwyntio'n galed iawn ar leihau'r halogiad, am na allwn gynnal y lefelau o halogiad mwyach. Ymwelodd staff â mwy na 50,000 eiddo dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cynnig cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau, a byddwn yn parhau i wneud hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf tra bod adolygiad o'r gwasanaethau yn cael ei gynnal gan aelodau etholedig a swyddogion.

Ar hyn o bryd rydym yn ceisio barn y cyhoedd ar ein cynigion ar gyfer y gwasanaethau chwaraeon a hamdden egnïol yn y dyfodol. Mae'r strategaeth 10 mlynedd yn nodi'r holl wasanaethau a ddarperir gennym er mwyn helpu pobl i fyw bywydau gweithgar. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried y safbwyntiau a gasglwyd ac yn penderfynu sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae ein manau awyr agored yn ased pwysig iawn i ni. Er mwyn cydnabod y safonau uchel a gynhelir gennym cadwdd chwech o'n parciau a'n manau agored (gan gynnwys un fynwent) eu statws "Baner Werdd".





Yn ystod 2017/18 ymwelodd 1.89 miliwn o dwristiaid â'r fwrdeistref sirol, sef cynnydd o 4.5% o gymharu â ffigurau 2016. Cynhaliodd y gweithgarwch hwn 1645 o swyddi a chyfrannu tuag at effaith economaidd gyffredinol twristiaeth yn yr ardal, sy'n cyfateb i £128.1 miliwn.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ledled y fwrdeistref sirol, gan gynnwys ras 10k Caerffili, a ddigwyddodd mewn tywydd poeth gyda thrigolion lleol yn defnyddio eu pibelli dŵr i chwistrellu dŵr oer roedd ei fawr angen dros gystadleuwyr wrth iddynt fynd heibio. Cofrestrodd ychydig o dan 2,500 o unigolion i gymryd rhan yn y ras. Derbyniwyd 700 o geisiadau i gymryd rhan yn y ras hwyl 2k, sef yr uchafswm a oedd yn cael ei ganiatáu, gydag ychydig o dan 3,200 o redwyr yn cystadlu, sef y nifer fwyaf erioed. Gwnaethom hefyd gynnal y ras 10k fwyaf ond dwy yng Nghymru!

Roedd 12,000 o drigolion ac ymwelwyr ar strydoedd Caerffili pan gynhaliodd y dref Ddiwrnod Lluoedd Arfog De Cymru am yr ail dro.

Cynhaliwyd gorymdaith filwrol drawiadol drwy ganol y dref a Gwasanaeth Milwrol teimladwy ar Gaeau Chwarae Owain Glyndŵr, a ddilynwyd gan amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl i'r teulu. Uchafbwynt y prynhawn oedd gweld awyrennau Spitfire yn hedfan heibio er mwyn coffáu Brwydr Prydain.

Ym mis Gorffennaf dychwelodd y ras feicio flynyddol, y Velothon, i'r ffyrdd ledled y fwrdeistref sirol, gan groesawu rhai o feicwyr proffesiynol gorau'r byd yn ogystal â miloedd o feicwyr hamdden ac unigolion a oedd yn codi arian i elusennau.


Hefyd, ymwelodd Ei Uchder Brenhinol y Tywysog Siarl â Llancaiach Fawr ym mis Gorffennaf i agor arddangosfa newydd. Fe'i croesawyd gan blant ysgol lleol a chafodd ei hebrwng yn ystod ei ymweliad gan staff a esboniodd sut roedd yr amgueddfa wedi cael ei thrawsnewid a'i hadfer i'w chyflwr gwreiddiol yn 1645.

Dros y flwyddyn ddiwethaf parhaodd y drafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch “ad-drefnu llywodraeth leol”. Nododd Llywodraeth Cymru ei chynigion mewn “Papur gwyrdd” a fyddai wedi arwain at leihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru o 22 i 10 dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fel rhan o'r cynigion hyn, nodwyd cynllun i uno Cyngor Caerffili a Chyngor Casnewydd. Mae'r cynigion hyn bellach wedi'u tynnu'n ôl ac, ynghyd â phob cyngor arall yng Nghymru, rydym wedi ymrwmo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni mesurau i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru.

Caiff bil ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2018 i ddiffinio'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol a gyda'n gilydd bydd yn ystyried sut y gall ein sefydliadau gydweithio i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol. Mae hyn yn bendant i'w groesawu am ein bod yn cydweithio â llawer o sefydliadau partner eisoes.

Gobeithio bod y crynodeb hwn wedi rhoi cipolwg i chi o'r hyn sydd wedi'i gyflawni ar ran dinasyddion Caerffili dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi bod yn gyflawniad cyfunol gwirioneddol a gyda phob aelod o staff yn canolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol ar y fwrdeistref sirol a gwneud gwahaniaeth iddi. Gyda'n gilydd rydym yn darparu 600 o wasanaethau bob dydd ac rydym yn adolygu ac yn mireinio ein dull gweithredu yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus costeffeithiol ac effeithlon i bobl Caerffili.

Christina Harrhy
Prif Weithredwr Dros Dro



Crynodeb o'n Cynnydd o ran Cyflawni ein Hamcanion Llesiant 2017-18

Gwnaethom adolygu ein hamcanion yn fanwl iawn ar ddechrau 2018 a phenderfynu bod angen i ni eu hadnewyddu a'u diweddarau yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd dinasyddion wrthym yn dilyn yr ymgynghoriad manwl a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad lleol o'n llesiant.

O ganlyniad, rydym wedi cyhoeddi Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2018-2023 sy'n cynnwys Amcanion Llesiant newydd. Ceir manylion pellach am y rhain ar wefan y Cyngor.

Felly, rydym bellach yn cau ein hamcanion ar gyfer 2017/18. Bydd y penodau nesaf yn dweud wrthyf sut rydym wedi perfformio yn eu herbyn a ph'un a ydynt wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, yn ein barn ni. Mae'r farn hon bob amser yn cael ei hadolygu, ei herio a'r gwirio gyda'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

Ceir gwybodaeth fanylach am gynllun gweithredu a thargedau pob Amcan Llesiant ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

1. MYND I'R AFAEL Â THLODI DRWY WNEUD Y DEFNYDD GORAU O INCWM drwy helpu pobl i wneud y defnydd gorau o incwm y cartref a rheoli eu dyledion – **bu'n Llwyddiannus**



2. GWELLA CANLYNIADAU I BOB DYSGWR yn enwedig y rhai a allai dangyflawni – **bu'n Rhannol Llwyddiannus**



3. CAU'R BWLCH MEWN DISGWYLIAD OES I DRIGOLION rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y fwrdeistref, drwy hyrwyddo buddiannau ffordd o fyw gweithgor ac iach – **bu'n Llwyddiannus**



4. RHEOLI CARBON, lleihau ein Hôl Troed Carbon drwy gymryd camau i leihau Ôl Troed Carbon yr Awdurdod a hysbysu a helpu eraill o fewn y fwrdeistref i wneud yr un peth – **bu'n Rhannol Llwyddiannus**



5. UDDSODDI YNG NGHARTREFI'R CYNGOR ER MWYN TRAWSNEWID BYWYDAU A CHYMUNEDAU drwy gymryd camau i sicrhau y caiff safon a chyflwr ffisegol ein stoc dai eu gwella ac y byddant yn parhau i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gan helpu i wella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn y cartrefi hynny – **bu'n Rhannol Llwyddiannus**



AMCAN LLESIANT 1

Trechu tlodi drwy gynyddu incwm i'r eithaf i helpu pobl i wneud y defnydd gorau o Incwm y cartref a rheoli eu dyledion

Dewiswyd hyn am y rhesymau canlynol

Yn ein cynlluniau a'n hadroddiadau blaenorol buom yn sôn am y ffordd y mae tlodi yn effeithio'n andwyol ar ragolygon pobl a'u dyfodol hirdymor. Mae hefyd yn gosod baich ar adnoddau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae mynd i'r afael â thlodi yn fuddiol i bawb. Ymhlith y rhesymau mwyaf cyffredin dros broblemau dyled mae colli swydd, salwch a thor-perthynas. Mae llawer mewn risg o wynebu problemau dyled yn dilyn digwyddiadau bywyd o'r fath, am fod gan gyn lleied ohonynt y gwydnwch ariannol i ymdopi. Gwyddom, er enghraifft, y gall problemau dyled effeithio ar iechyd meddwl da, cydberthnasau, addysg a llesiant cyffredinol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd digynsail yn y defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru. Mae prisiau ynni hefyd wedi cynyddu, a gall hyn greu problemau i'r rhai ar incwm isel. Mae'r rhai mewn tlodi yn fwy tebygol o fod â mesuryddion rhagdalau a gallant fod yn talu hyd at £253 yn fwy bob blwyddyn na'r rhai sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol..



*Ffynhonnell y BBC -
Ymddiriedolaeth
Trussell

Ledled Cymru dosbarthwyd **98,350 o fagiau bwyd tri diwrnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018** ac o'r rhain dosbarthwyd **35,403** i blant. Gwnaed 29% o atgyfeiriadau am nad oedd pobl ar incwm isel neu fudd-daliadau yn gallu cael dau ben llinyn ynghyd.*

Ym mis Mai 2018, roedd y mynegai tanwydd dwbl **9.7% yn uwch na'i lefel** yn 2015. Mae'r mynegai trydan **19.7% yn uwch** ac mae'r mynegai nwy **0.1% yn wch**.**

**Ofgem



Sut y gwnaethom berfformio

Er bod arwyddion cenedlaethol (megis y defnydd o fanciau bwyd) yn parhau i gynyddu ledled y DU, yn ein barn ni rydym wedi bod yn llwyddiannus yn erbyn yr amcan hwn am ein bod wedi cwblhau pob un o'n camau gweithredu ac, yn bwysicach na hynny, am fod ein mesurau perfformiad wedi gwella o gymharu â'r llynedd. Gwnaethom ymweld â mwy o denantiaid er mwyn rhoi cyngor iddynt ar sut i gynllunio'n ariannol ac oherwydd hyn roeddem yn gallu eu helpu i gael budd-daliadau a sicrhau arbedion gwerth ychydig o dan £1 filiwn ar eu helpu i gael budd-daliadau a sicrhau arbedion gwerth ychydig o dan £1 filiwn ar eu rhan.

Sicrhawyd arbedion
gwerth £903,508 i

denantiaid o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb i liniaru effaith uniongyrchol diwygiadau llesiant.

Gwnaethom ymweld â **444** o denantiaid y cyngor a rhoi cyngor iddynt ynghylch mesurau arbed ynni a'r defnydd o ynni.

Gwnaethom ymweld â bron **2000** o denantiaid y cyngor yr effeithir arnynt gan ddiwygiadau llesiant a rhoi cyngor a chymorth iddynt er mwyn lleihau effaith y newidiadau.

Gwnaethom atgyfeirio **51** o denantiaid y cyngor i gael cyngor ariannol a chynghor ar ddyledion o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb ar effaith diwy.

Gwnaethom helpu **1640** o bobl i gael y buddiannau y mae ganddynt yr hawl i'w cael. Roedd hyn yn cynnwys Taliadau Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gweini a chyfleoedd i fanteisio ar gostau cyfleustodau rhatach. giadau llesiant.

Mae ffyrdd eraill rydym wedi mynd ati i drechu tlodi yn cynnwys defnyddio rhaglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, gwnaeth rhaglen 'Cefnogi Pobl' helpu 1730 o bobl eraill i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael a chafodd 620 o blant fudd o ddarpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg.

Mae gofal plant yn aml yn rhwystro rhieni rhag dychwelyd i'r gwaith. Yn ystod 2017/18 cawsom ein dynodi'n awdurdod lleol sy'n weithredwr cynnar ar gyfer y Cynnig Gofal Plant am ddim. Hyd yma, mae 120 o rieni wedi cofrestru i gynnig gofal, a hyd at 31 Mawrth 2018 mae 374 o blant wedi cael lleoliadau. Mae adborth gan rieni wedi dangos bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i rieni mewn aelwydydd sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel.

Manteisiodd 64% o'n disgyblion ysgol uwchradd, a oedd yn gymwys i'w cael, ar Brydau Ysgol am Ddim, sef gostyngiad o 1% o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, oherwydd y tywydd garw bu'n rhaid cau ysgolion ar sawl achlysur. Er gwaethaf hyn, gwnaethom lwyddo i sicrhau bod 73% o'r plant a oedd yn gymwys i'w cael wedi manteisio ar Brydau Ysgol am Ddim mewn ysgolion Cynradd yn erbyn targed o 70%. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal a chynyddu nifer y disgyblion cymwys sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim er mwyn iddynt allu cael prydau bwyd maethlon o ansawdd da heb unrhyw gost iddy n nhw eu hunain. Gall hyn arbed £427 i deulu dros flwyddyn ysgol.



Beth yw ein sefyllfa nawr?

Gwyddom fod llawer o'r achosion posibl a'r mentrau cenedlaethol megis cyflwyno 'Credyd Cynhwysol' y tu hwnt l reolaeth unrhyw awdurdod lleol unigol. Mae gwaith y Rhaglenni Gwrthdlodi a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau (er bod eu strwythur cyllido yn newid) ac mae ein staff yn parhau i ymweld â phobl bob dydd er mwyn eu helpu i gael y budd-daliadau perthnasol er mwyn lleihau eu costau tanwydd. Am fod hyn bellach yn rhan o'n gwaith bob dydd nid ydym yn ei gadw fel amcan 'annibynnol' mwyach, ond yn hytrach rydym yn symud rhannau ohono i'n cynllun corfforaethol tymor hwy. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni fod yn fwy strategol ac rydym yn gweithio ar gynlluniau gyda'n partneriaid i ddefnyddio prentisiaethau, er eng hraifft, i sicrhau bod pobl yn cael gwaith er mwyn eu helpu i osgoi tlodi.



ASTUDIAETH ACHOS

HYDERUS GYDAG ARIAN: Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda theuluoedd unigol drwy ymweld â nhw yn eu cartrefi a rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder ariannol iddynt allu gwella eu hamgylchiadau. Gall cynghorydd Budd-daliadau Lles hefyd helpu i sicrhau bod teulu yn cael y budd-daliadau y mae ganddo'r hawl i'w cael.

Y Sefyllfa: Roedd cwpl â thri o blant yn ei chael hi'n anodd ymdopi; roedd gan y fam broblemau iechyd meddwl ac roedd yn cael trafferth i gyllidebu. Nodwyd ôl-ddyledion rhent gwerth £1600 ac roedd y landlord ar fin mynd i'r llys i geisio troi'r teulu allan.

Hefyd, roedd ôl-ddyledion trydan a nwy gwerth £550 ac ôl-ddyledion ardrethi dŵr gwerth £1500. Wrth reswm, roedd y cwpl yn pryderu'n fawr ac o dan lawer o straen ac, er nad oeddent am wneud hynny, roeddent yn teimlo y byddent yn well eu byd yn ariannol petaent yn gwahanu a phetai'r fam yn hawlio budd-daliadau fel rhiant sengl.

Atgyfeiriwyd y cleientiaid gan uwch Swyddog Lles Addysg am fod y plant bod amser yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol.

Yr hyn a wnaethom: Buom yn gweithio gyda'r teulu gan ddadansoddi ei gyllideb a nodi ble y gallai wneud arbedion a lleihau ei ddyledion nad oeddent yn flaenoriaeth. Gwnaed cais i'r Gronfa Cymorth Cwsmeriaid mewn perthynas â dŵr. Cytunwyd i leihau ôl-ddyledion nwy a thrydan i gyfradd fwy fforddiadwy, sef £5 yr un yr wythnos. Nid oedd unrhyw drefniant ffurfiol ar waith ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion rhent, felly trefnodd y gweithiwr prosiect i archeb sefydlog gael ei sefydlu i dalu'r rhent wythnosol a'r ôl-ddyledion.

Canlyniadau: Mae ôl-ddyledion nwy a thrydan bellach yn cael eu talu, ac mae rhent yn cael ei dalu drwy archeb sefydlog, felly nid oedd angen i'r landlord ddwyn achos llys i droi'r teulu allan. Roedd y plant wedi bod yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr am fod y cleient wedi bod yn rhoi lifft i'w bartner i'r gwaith ac wedyn yn mynd â'r plant i'r ysgol.

Cafodd y plant eu cofrestru â'r clwb brecwast, fel y byddent yn cael eu gollwng yn gyntaf, felly byddai'r partner yn cyrraedd y gwaith yn brydlon. O ganlyniad, mae'r cwpl yn aros gyda'i gilydd.

Dywedant eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch y dyfodol. Dywedodd y landlord hefyd, oni bai am brosiect Hyderus gydag Arian, y byddai achos llys wedi'i ddwyn i droi'r teulu allan ac mae'n falch bod y taliadau rhent yn cael eu gwneud ar amser a bod yr ôl-ddyledion yn lleihau.



AMCAN LLESIANT 2

Gwella canlyniadau i bob dysgwr, yn enwedig y rhai a allai dangyflawni

Dewiswyd hyn am y rhesymau canlynol

Ein nod yw cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ac eraill sydd o dan fwy o anfantais er mwyn i'n holl bobl ifanc fanteisio ar yr addysg orau, drwy hyrwyddo cyfleoedd mwy cyfartal a dileu rhwystrau sy'n benodol i'r grŵp hwn o'n dinasyddion.

Ein nod yw "y dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, a'r cyfle i lwyddo fel person ifanc ac fel oedolyn". Wrth gyflawni'r nod hwn, rydym yn cydnabod y gall grwpiau bach o blant a phobl ifanc wynebu mwy o heriau nag eraill. Gall y risg o dangyflawni'n addysgol gael ei nodi drwy nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys amddifadedd. Gall gael ei bennu hefyd yn ôl p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc angen dysgu ychwanegol, neu p'un a yw'n blentyn sy'n derbyn gofal Nododd ein data fod bwlch mewn perfformiad rhwng y rhai yn y grwpiau hyn a'r boblogaeth gyffredinol. Roeddem am wneud rhywfaint o waith dwys yn y maes hwn er mwyn ceisio lleihau'r bwlch hwnnw, a sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfleoedd priodol i'w helpu i lwyddo, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.

Sut y gwnaethom berfformio

Credwn ein bod yn rhannol lwyddiannus am ein bod wedi cyflawni pob un o'n camau gweithredu ac er i ni wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r rhai dan sylw, nid ydym yn fodlon o hyd ein bod wedi cyrraedd y safonau sydd eu hangen arnom. Dengys rhywfaint o'r wybodaeth am ein perfformiad a ddefnyddir gennym i fonitro cynnydd ddarlun cymysg gyda rhywfaint o ddata nad ydynt yn dangos gwelliant o gymharu â'r llynedd.

Ni chaiff canlyniadau'r arholiadau a gafwyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/18 eu cyhoeddi tan ddiwedd yr Hydref /Gaeaf 2018. Felly, ni allwn farnu ar hyn o bryd a yw lefelau cyrhaeddiad wedi gwella. Fodd bynnag, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016/17 roedd rhai canlyniadau allweddol yn cynnwys:



Ffeirir
y ffigur
uchaf

- Canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd 78.90% o gymharu ag 80.80% yn 2015/16



Ffeirir
y ffigur
uchaf

- Canran y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 3 68.50%, o gymharu â 65.10% yn 2015/16



Ffeirir
y ffigur
isaf

- Canran y disgyblion (gan gynnwys y rhai mewn gofal awdurdod lleol) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd oedd 1.2%, o gymharu ag 1.10 yn 2015/16.



Gwell



Gwaeth



Ni ellir ei chymharu



Ffêfir y
ffigur
isaf

dau allan o 25 o ddisgyblion a oedd yn 'derbyn gofal' yn gadael yr ysgol heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith. Mae hyn yn cyfateb i 8% sy'n well na chanlyniad 2015/16, sef 18%.



Ffêfir y
ffigur
uchaf
**

canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*- C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg oedd 49% (982 o ddisgyblion allan o'r 1966 ar y gofrestr ar adeg y cyfrifiad blynyddol).
** Ni ellir ei chymharu â'r ffigur ar gyfer y llynedd am fod y dull cyfrifo wedi newid




Blwyddyn 11


Y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – gadawodd 1,959 o ddisgyblion yr ysgol ym mlwyddyn 11 roedd yn hysbys nad oedd 50 ohonynt

Mae presenoldeb yn ffactor hollbwysig o ran cael canlyniadau academiaidd da. Mae ymchwil wedi dangos, yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn, y gall absenoldeb (a gymeradwywyd gan rieni) ddatblygu'n batrwm sy'n sefydlu agwedd wael tuag at yr ysgol. Rydym wedi gwella lefelau presenoldeb mewn ysgolion Cynradd ac wedi'u cynnal, ar y cyfan, mewn ysgolion Uwchradd, ond mae mwy i'w wneud. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-2023 o dan ein hamcan Addysg newydd.

MAC/007 canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd



MAC/008 canran presenoldeb disgyblion mewn mewn ysgolion uwchradd



* Blwyddyn academiaidd

Mae gan bob ysgol dargedau sefydledig ar gyfer haf 2018, ac maent wedi gwneud gwaith ymyrryd gyda chymorth staff yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i wella nifer o fesurau. Hysbysir ein haelodau craffu am y canlyniad hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu ar ddechrau 2019.

Yn y gorffennol roedd ffyrdd gwahanol y gallai teuluoedd gael cymorth gan asiantaethau gwahanol, roedd gan bob sefydliad ffurflenni gwahanol, prosesau gwahanol a lefelau gwahanol o amseroedd aros. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid gwnaethom sefydlu Fframwaith Cydasesu Teuluoedd (JAFF) a symleiddiodd bob dogfen a phroses, er enghraifft mae defnyddio un ffurflen yn unig wedi lleihau'r fiwrocratiaeth flaenorol ac wedi rhoi pwynt cyswllt canolog i bobl.

Mae'r cyswllt hwn yn helpu i nodi, yn gyflymach, pa wasanaeth sydd fwyaf addas i'r teulu ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan ysgolion i atgyfeirio pobl at wasanaethau ataliol.

Mae'r gwaith presennol wedi canolbwyntio ar ddod o hyd i brosiectau ar y cyd a swyddi a ariennir ar y cyd ar draws ffrydiau arian grant fel y gellir ehangu mynediad at gymorth, ehangu mynediad i deuluoedd a chynnig parhad i'r teuluoedd mwyaf agored i niwed.

Prosiect pwysig ar gyfer eleni a'r dyfodol yw prosiect Plant yn Gyntaf a fu'n gweithio, hyd yma, i gynnig cyfleoedd dysgu gwell yn ardal Parc Lansbury yn ward St James. Diben y gwaith yw nodi eu hanghenion a chydgyhyrchu atebion gyda'r gymuned er mwyn cael effaith ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn bwysig iawn am fod yn rhaid i'r gymuned gael ei chynnwys yn y broses o nodi'r atebion sydd eu hangen arnynt yn hytrach na gosod atebion arnynt.

Mae'r cam ymgysylltu a mapio cychwynnol yn dod i ben ac yn symud tuag at y cam cynllunio a gweithredu, a dyna pam mae'r amcan hwn wedi'i rannol gwblhau ac yn dal i fod yn gam gweithredu yng Nghynllun Llesiant Pum Mlynedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r gweithiwr cymorth teuluoedd wedi cael rhywfaint o lwyddiant cychwynnol o ran cyflwyno rhaglenni rhianta ar draws yr ystod oedran gydag adborth cadarnhaol ar gyfer hyder cynyddol rhieni a phlant. Bydd y gwaith hwn yn parhau mewn mwy o fanylder wrth i ni symud i mewn i 2018/19.

Rydym yn cydweithio â'r Rhwydwaith Rhieni i ddatblygu menter gymdeithasol, sef prosiect 'Parents Engaging to Raise Aspirations', a elwir yn PETRA. Fforwm rhieni Hengoed oedd y grŵp cyntaf, rhwng tair a phedair blynedd yn ôl, i weithio gydag awdur a darlunydd i lunio eu llyfr plant eu hunain, sef 'Petra'. Ers hynny mae grwpiau bach eraill o rieni wedi dechrau gweithio gydag awduron a darlunwyr ac wedi cael hyfforddiant ar adrodd straeon, llunio straeon a meysydd pwnc penodol, megis dementia, benthydwyr arian didrwydded, lleferydd, iaith a chyfathrebu, materion trawsrywiol ac ati. Y nod yw meithrin dyheadau, sgiliau a hyder i ddod â llyfrau i mewn i'w cartrefi, eu cymunedau, eu hysgolion a'u llyfrgelloedd ac, wrth wneud hynny, newid y dyfodol ar gyfer ein plant.

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r prosiect wedi llunio mwy na 40 o lyfrau gan gynnwys rhai i oedolion hŷn. Mae'r prosiect yn un llenyddol, yn ei hanfod, sy'n dod â llawer o fanteision ehangach gan gynnwys manteision cymunedol cymdeithasol fel cymorth cymheiriaid, cyfeillgarwch, gwydnwch, yn ogystal â datblygiad mwy personol, megis hyder, hunan-barch, sgiliau llythrennedd, a dyheadau cynyddol i roi cynnig ar bethau eraill fel, gwirfoddoli, hyfforddiant neu ymgeisio am swyddi.

Daw rhieni at ei gilydd fel ffynhonnell cefnogaeth gref i'w gilydd ac mae eu sgiliau adrodd straeon newydd, eu hyder a'u cariad tuag at lyfrau wedi ennyn brwdfrydedd mewn rhieni eraill a'u plant. Mae hyn yn gwella llythrennedd rhieni a phlant ac mae wedi sicrhau deilliannau sylweddol i deuluoedd hyd yma. Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi comisiynu pedwar llyfr i'w cyfieithu'n sympathetig a bydd yn eu dosbarthu ledled Cymru.

ASTUDIAETH ACHOS

TEULUOEDD YN DYSGU GYDA'I GILYDD:

Diben y prosiect hwn yw helpu teuluoedd i wella eu llythrennedd a'u rhifedd a hyrwyddo datblygiad iaith cynnar drwy grwpiau yn y gymuned a sesiynau unigol yn y cartref.

Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i'r teulu cyfan feithrin hyder a sgiliau ac yn galluogi rhieni i gefnogi eu plant gartref ac yn yr ysgol.

Y prif fater: Atgyfeiriwyd y teulu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol at brosiect Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd. Roedd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac roedd angen cymorth ar y teulu gan amrywiaeth o wasanaethau.

Gofynnwyd i'r prosiect ddarparu sesiynau yn y cartref i weithio gyda'r plentyn ifancaf a oedd ym Mlwyddyn 2 yn yr ysgol Gynradd (6 oed). Roedd angen cymorth llythrennedd arni ac roedd angen i'r rhieni gael syniadau ynghylch sut i gefnogi eu plant. I ddechrau nododd yr ysgol nad oedd y rhieni yn cwblhau unrhyw waith cartref gan gynnwys ymarfer sillafu a darllen.

Gwaith a wnaed: Penodwyd tiwtor i'r teulu. Bu'n gweithio'n agos gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r athro dosbarth i lunio cynllun gwaith er budd y teulu.

Prif ffocws y cymorth oedd llythrennedd ond roedd yn amlwg bod angen cymorth ar y teulu gyda nifer o ddeilliannau meddal.

Cynlluniodd y tiwtor weithgareddau a ganolbwyntiodd ar helpu'r teulu i gyflawni'r targedau a bennwyd gan yr athro dosbarth, y deietegydd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Deilliannau: Mae'r teulu wedi cydweithio'n dda fel uned glòs ac wedi ymgysylltu'n dda drwy gydol y rhaglen. I ddechrau roedd y rhieni yn ddihyder ac roeddent yn amharod i gymryd rhan mewn sesiynau. Gyda chymorth rheolaidd a chyson yn fuan gwnaethant oresgyn eu pryderon ac maent bellach yn gweithio'n dda gyda'r tiwtor bob wythnos.

Mae sgiliau'r plentyn ifancaf wedi gwella'n sylweddol, gyda'r athro dosbarth yn cyfeirio at gynnydd a hyder y plentyn mewn cyfarfod yn ddiweddar. Mae'r plentyn bellach yn gweithio tuag at Ddeiliant 6 (y Cyfnod Sylfaen).

Yr adborth a gafwyd oedd bod "Kathryn y tiwtor yn barod ei chymwynas ac yn garedig. Mae'n hawdd siarad â hi, mae'n ceisio helpu mewn unrhyw ffordd bosibl. Bydd pawb yn ffodus i gael Kathryn i'w helpu.

Mae wedi rhoi llawer o gymorth i'm merch a minnau, mwy nag y meddyliais y gallai ei roi a hebddi hi ni fyddem wedi dod mor agos at ein gilydd fel teulu. Byddwn yn gweld ei heisiau hi pan ddaw'r tymor i ben, rwy'n hynod ddiolchgar iddi."



Beth yw ein sefyllfa nawr?

Mae rhannau o'r amcan hwn wedi'u cario ymlaen i'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-2023 ond maen wedi'u hehangu i gynnwys mwy o agweddau. Er enghraifft, yn aml caiff Addysg ei barnu yn ôl canlyniadau'r arholiadau yn unig, pan fo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn llawer ehangach (fel y dengys yr astudiaeth achos) ac yn aml mae meysydd cymhleth yn ymwneud ag ansawdd bywyd, dyheadau, iechyd a lles, digartrefedd ac ati. Er ein bod yn cael ein barnu yn ôl canlyniadau arholiadau yn genedlaethol roeddem am ganolbwyntio ar bethau eraill, er enghraifft pa gymorth y gallwn ei roi i'r rhai nad ydynt yn dilyn llwybr addysg traddodiadol neu na allant wneud hynny?

Beth am helpu pobl ifanc i gael hyfforddiant a gwaith? Beth mae awtomeiddio yn ei olygu o ran y sgiliau rydym yn ceisio eu dysgu iddynt nawr? Beth am yr amgylchedd dysgu (sef y sylfeini go iawn), sut y gallwn ei wella? Mae'r holl gwestiynau hyn wedi peri i ni ehangu camau gweithredu ein hamcan addysg ar gyfer 2018-2023, ac, er ei fod yn dal i ganolbwyntio'n gryf ar helpu dysgwyr sy'n agored i niwed, rydym yn cau'r amcan penodol hwn a byddwn yn ailgydio yn yr agweddau hyn yn yr amcan pum mlynedd nesaf



AMCAN LLESIANT 3

Cau'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng trigolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardaloedd lleiaf difreintiedig y fwrdeistref drwy hyrwyddo buddiannau ffordd o fyw

Dewiswyd hyn am y rhesymau canlynol

Prif nod y flaenoriaeth hon yw gwella ffordd o fyw ein poblogaeth leol fel bod pobl yn cydnabod ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Yn ei dro, bydd hyn yn lleihau'r amrywiad o ran disgwyliad oes iach fel bod ieuchyd a llesiant unigolion difreintiedig yn gwella i gyfateb i'r lefelau a geir ymhlith unigolion breintiedig.

Ein gweledigaeth yw bod bwrdeistref sirol Caerffili yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Rhaid i hyn fod yn wir ar gyfer pob un o'r trigolion. Nod hirdymor yw hwn am fod lefelau sylweddol uwch o salwch ymhlith trigolion sy'n byw mewn ardaloedd â lefel uchel o amddifadedd, gan gynnwys marwolaeth yn sgil clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, canser yr ysgyfaint, diabetes, salwch meddwl a chlefydau anadlol. Dangosodd data a ryddhawyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2011) ar gyfer y blynyddoedd 2001-2005 a 2005-2009 fod anghydraddoldebau ieuchyd ledled y fwrdeistref sirol yn frawychus. Dangosodd data a ddarparwyd yn 2016 fod y sefyllfa yn gwella, ond roedd anghydraddoldebau ieuchyd o hyd.

Sut y gwnaethom berfformio

Er bod dangosyddion Iechyd y Cyhoedd yn dangos bod mwy i'w wneud, credwn fod ein hamcan yn llwyddiannus am fod ieuchyd yn gyffredinol yn gwella yng Nghymru gyfan ac yn y fwrdeistref sirol. Mae'r amcan

i gau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig wedi'i gyflawni hyd yma.

Mae pobl yn byw yn hirach, ac mae cyfraddau marwolaeth oherwydd canser a chlefydau'r galon yn lleihau. Ers cyhoeddi'r amcan hwn, mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2016 yn gwella gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos darlun sy'n gwella i drigolion Caerffili. Bydd data gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu tystiolaeth i ddangos p'un a yw ieuchyd ein trigolion ymhellach ai peidio.

Disgwyliad Oes Iach



Dynion

Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach yng Nghaerffili ar gyfer Dynion wedi **lleihau o 18.6 blynedd i 13 blynedd** rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Merched

Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach yng Nghaerffili ar gyfer Merched wedi **lleihau o blynedd i 14.6 blynedd** rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.


Mae ffyrdd afiach o fyw yn datblygu, o leiaf yn rhannol, oherwydd anghydraddoldebau yn yr amgylchiadau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw ac yn gweithio ynddynt ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd i leihau'r anghydraddoldebau hyn. Mae'n bwysig nodi bod nifer yr adnoddau ar gyfer y gwaith hwn wedi lleihau a bod rhaglenni wedi newid yn sylweddol ers pennu'r amcan hwn, felly mae angen i ni gadw llygad ar hyn i weld bod cynnydd yn cael ei wneud.

Un o'r prif ddeilliannau rydym am eu sicrhau yw lleihau cyfraddau ysmegu ac mae cyfran yr oedolion sy'n ysmegu wedi gostwng yn raddol dros y degawd diwethaf.

Mae camau gweithredu cydweithredol wedi cael eu cymryd ym mhob rhan o'r system er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n ysmegu ledled y fwrdeistref sirol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mentrau a gyflwynir ar lefel leol yn hanfodol er mwyn llwyddo i leihau nifer y bobl sy'n ysmegu. Ymhlith y gwaith hollbwysig a gyflawnwyd, drwy gydweithio, o fewn bwrdeistref sirol Caerffili mae:

- Camau gorfodi mewn perthynas â thybaco anghyfreithlon.
- Pryniannau prawf dan oed.
- Cymorth i roi'r gorau i ysmegu drwy Helpa FStopio, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu at:
 - rieni / mamau beichiog.
 - cleifion cyn llawdriniaeth/unigolion â chlefyd yr ysgyfaint/unigolion â chyflyrau iechyd meddwl.
 - unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Rhaglenni Rhianta.
- Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru.
- Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy.
- Meysydd Chwarae, Ysgolion,
- Lleoliadau Gofal Plant ac Ysbytai Di-fwg.
- Safleoedd Di-fwg ac Ymyriadau'r
- Gwasanaeth Ieuencid.

↓ 21%



Mae **cyfradd yr oedolion sy'n ysmegu** wedi gostwng yn barhaus yn barhaus yn ystod y degawd diwethaf, o 28% yn 2003/04 +2004/05 i **21% yn 2014/15** (Arolwg Iechyd Cymru).

Mae'r ffordd y caiff y data hyn eu casglu bellach wedi trosglwyddo i Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dangosodd cylch cyntaf Arolwg Cenedlaethol Cymru fod ein cyfradd ysmegu wedi gostwng ymhellach i 18%, ond nid oes modd cymharu'r ddwy set o ddata gan fod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio diffiniadau gwahanol a sampl llai o faint. Yn y dyfodol, bydd data ar gael o Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru. Dengys rhagamcanion ar gyfer cyfraddau ysmegu y byddant yn parhau i ostwng er bod Cynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco (2012) gan Lywodraeth Cymru yn pennu targed i ostwng cyfraddau ysmegu oedolion i 16% erbyn 2020. Mae cyrraedd y targed hwn yn dasg heriol o hyd a bydd angen ymdrech barhaus a chydweithredol gan bob partner i'w gyflawni.

Fel rhan o ffyrdd o fyw afiach un o'n camau gweithredu oedd helpu i leihau lefelau gordewdra drwy lansio menter o'r enw 'Y Ffilltir Ddyddiol' sydd ag un nod - sef helpu plant i gadw'n heini drwy gerdded neu redeg am 15 munud y dydd. Mae'n annog plant i wneud mwy o ymarfer corff ac yn eu helpu i ddeall manteision iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Mae'r fenter hon yn ennill momentwm yn ein hysgolion a ledled rhanbarth Gwent. Ers lansio'r Ffilltir Ddyddiol yn 2017 mae mwy na 50% o'n hysgolion babanod a chynradd wedi mabwysiadu'r fenter hon.



8500

Mae mwy nag 8500 o ddisgyblion yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd fel rhan o'u trefn


Disgwylir i ragor o ysgolion ymuno â'r Filltir Ddyddiol ym mis Medi 2018. Mae gennym un o'r cyfraddau cyfranogi uchaf yng Nghymru. Mae'r fenter hon bellach wedi'i hymwreiddio yng ngwaith craidd ein tîm Ysgolion Iach a Chwaraeon Caerffili.

Gwnaethom helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi'r rhaglen Byw'n Dda, Byw'n Hirach ar waith ledled y fwrdeistref sirol. Cwblhawyd y gwaith o gyflawni'r rhaglen hon yn 2016/17. Cafodd mwy nag 8700 o drigolion eu gwahodd i gael asesiad risg cardiofasgwlaidd, "MOT canol oes" mewn 32 o leoliadau yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y fwrdeistref sirol. Aeth ychydig yn llai na 4000 o drigolion i gael asesiad, a chafodd 514 gymorth pellach i fanteisio ar ymyriadau dilynol i wella eu hiechyd.

Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent ar raglen newid ar raddfa fawr yn ardal Blaenau'r Cymoedd, sydd wedi targedu merched 14-40 oed gyda'r nod o sicrhau newid mewn ymddygiad er mwyn gwella gweithgarwch corfforol. Bu'r rhaglen hon yn llywyddiannus iawn gyda rhai canlyniadau ardderchog lle mae unigolion wedi dechrau amrywiaeth o fentrau gweithgarwch corfforol yn eu cymunedau eu hunain ac wedi eu cynnal neu eu datblygu.

Mae cynyddu gwybodaeth trigolion ym maes llythrennedd iechyd yn rhan bwysig o'r gwaith cyffredinol hwn am fod a wnelo hyn â galluogi pobl i wneud dewisiadau da

ac er mwyn gwneud hynny mae angen iddynt gael y wybodaeth gywir. Mae hyn yn golygu dechrau'n gynnar lle y gallwn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'r 12 mis diwethaf yn cynnwys y canlynol:



Cymerodd pob un o'r ysgolion uwchradd y nodwyd eu bod yn gymwys i gyfranogi yn rhaglen 'Byw Bywyd Di-fwg' Iechyd Cyhoeddus Cymru ran mewn rhaglen atal

mewnysgolion ar gyfer myfyrwyr ym Mlwyddyn 8 (12+13 oed) i drafod y risgiau sy'n gysylltiedig ag ysmegu a manteision byw bywyddi-fwg. Mae'r tîm Ysgolion Iach wedi cynnal gweithdai "Beth sydd mewn sigarét?" mewn wyth ysgol.



Cyflwynodd y Tîm Ysgolion Iach ddwy sesiwn 'coginio gyda'n gilydd' i athrawon (roedd 30 yn bresennol). Mae'r

sesiynau hyn yn uwchsgilio staff i allu cynnal sesiynau coginio'n iach yn yr ysgol. Yn ogystal â'r hyfforddiant, mae adnoddau coginio iach y dosbarth wedi cael eu rhoi i bob ysgol.



Cafodd chew ysgol (pob aelod o staff addysgu)

yfforddiant ar addysg rhyw a pherthnasoedd a'r holl adnoddau perthnasol sydd eu hangen i gyflwyno rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd gynhwysfawr.

HEFYD

45

Mae sesiynau **hyfforddiant hylendid** wedi cael eu cynnal mewn 45 o ysgolion

17

Roedd 17 o bobl yn bresennol mewn sesiwn hyfforddi ar **ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta**.

3

Mae **gweithdy llesiant** wedi cael ei chynnal mewn tair ysgol (roedd nifer fawr o staff yn bresennol).

1

Mae un ysgol wedi derbyn sesiwn **hyfforddi ar Ddiogelwch Helmedau** yr oedd pob disgybl yn

Mae Cynllun Ysgolion Iach a Chynaliadwy Caerffili a'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach a Chynaliadwy yn cyrraedd eu targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18.

Mesurau	Canlyniad
Nifer y lleoliadau sydd wedi cwblhau'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy.	17 (targed 5)
Nifer yr ysgolion sy'n cwblhau cyfnod olaf y Cynllun Ysgolion Iach – 'Gwobr Ansawdd Genedlaethol Llywodraeth Cymru'.	9 (targed 9)
Nifer y lleoliadau gofal plant sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach – ysgolion.	74 (targed 50)
Canran yr ysgolion sydd wedi ennill achrediad Ysgol Iach yng nghyfnod 3.	98% (targed 95)
% Canran yr ysgolion sy'n gweithio tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol.	80% (targed 20)

Er bod gwahanol brosiectau fel y 'Filltir Ddyddiol' wedi bod yn llwyddiannus, mae llawer mwy i'w wneud o hyd i leihau lefelau gordewdra, fel y dengys y wybodaeth ganlynol:-




26%

5 diwrnod neu fwy

Canran y bobl a oedd wedi gwneud ymarfer corff ar 5 diwrnod neu fwy yn yr wythnos ddiwethaf – Canran yr oedolion wedi'i safoni yn ôl oedran – **Caerffili 26%**. Mae'r ganran hon wedi gostwng o 28% yn 2010/11. *Mae hyn yn is na gweddill Gwent a chyfartaledd Cymru.*

26%



Canran yr Oedolion a nododd eu bod wedi **bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau** y diwrnod cynt **26%**, o gymharu â 29% yn 2011/12.

Beth yw ein sefyllfa nawr?

Mae dewisiadau ffordd o fyw afiach yn sylweddol uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig ac mae hyn yn creu ffactorau risg a allai effeithio ar iechyd ein trigolion, yn enwedig ysmegu, gordewdra, anweithgarwch corfforol a deiet gwael.

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (Canlyniadau Tecach i Bawb 2011) yw bod angen i ni wella disgwyliad oes iach i bawb a chau'r bwlch rhwng pob lefel o amddifadedd 2.5% ar gyfartaledd erbyn 2020.

Mae cryn dipyn i'w wneud o hyd i leihau'r anghydraddoldebau hyn a dyma pam mae data o Asesiad o Lesiant Lleol Ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili 2017 wedi'u defnyddio i adolygu ac ailgyfeirio'r amcan hwn gan ganolbwyntio ar y meysydd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf.

Bydd y ffocws newydd yn ystyried ein rôl yn y gwaith o ddarparu amgylchedd cefnogol i drigolion wneud dewisiadau iach a mwynhau ffordd iach o fyw.

63%



% Oedolion sy'n rhy drwm neu'n ordew yng Nghaerffili ywn 63%. Dyma'r gyfradd uchaf yng Ngwent ac yn uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr.

27%



Canran yr Plant 4/5 oed a gaiff eu categorio fel rhai sydd dros bwysau neu'n ordew yng Nghaerffili yr 27%. **Mae hyn yn uwch na chfartaledd Gwent** ac yn uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr.



AMCAN LLESIANT 4

Rheoli Carbon – Lleihau ein Hôl Troed Carbon drwy gymryd camau i leihau Ôl Troed Carbon yr Awdurdod a hysbysu a helpu eraill o fewn y fwrdeistref i wneud yr un peth

Dewiswyd hyn am y rhesymau canlynol

Mae ein hinsawdd yn newid yn rhannol o ganlyniad i allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgarwch dynol. Carbon deuocsid (CO₂) yw'r nwy tŷ gwydr mwyaf sylweddol a chyffredin a allyrir yn sgil llosgi tanwydd ffosil fel glo, olew a nwy naturiol. Mae gennym fwy na 480 o safleoedd sy'n allyrru carbon deuocsid ac mae allyriadau carbon blynyddol CBSC yn fwy na 26,000 o dunelli. Mae gennym rwymedigaeth i gymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon cymaint â phosibl ac ystyried yr effaith negyddol gysylltiedig ar yr amgylchedd o ddifrif. Pennwyd yr amcan hwn yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy fel un hirdymor ac mae ein camau lleihau carbon yn ymestyn dros sawl blwyddyn. Bydd rhai cynlluniau 'buddsoddi i arbed' yn cael eu had-dalu mewn llai na 10 mlynedd, ond bydd eu technoleg yn para hyd at 30 mlynedd.

Cafodd ein hamcan ei rannu'n bedair adran o dan:

- Gwaith cynnal a chadw da.
- Buddsoddi i Arbed.
- Dylunio a Rheoli Asedau.
- Technoleg Adnewyddadwy.



Sut y gwnaethom berfformio

Credwn fod yr amcan hwn yn rhannol lwyddiannus am nad oedd dau o'n pum cam gweithredu allweddol wedi'u cwblhau'n llawn, er enghraifft gohiriwyd cynllun peilot i dreialu cerbydau trydan. Fodd bynnag, gwnaethom ragori ar y targedau ar gyfer tri o'n pum dangosydd allweddol a chynnal 104 o weithgareddau codi ymwybyddiaeth. Darparwyd hyfforddiant i 31 o ysgolion, megis hyfforddiant ar reolyddion boeleri (er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni) a chynaliwyd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i leihau'r defnydd o ddŵr, sydd oll yn gonglfeini technegau arbed ynni a dŵr da.

Gwnaethom barhau i leihau ein hallyriadau carbon wrth i'n prosiectau Buddsoddi i Arbed lwyddo i sicrhau gostyngiad o 61 o dunelli y flwyddyn mewn allyriadau carbon.

Yn 2017/18 darparwyd £161k i roi tri chynllun ffotofoltäig (paneli solar) eithaf mawr ar waith yng Nghanolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen, Canolfan Hamdden Rhisga a Chanolfan Rhagoriaeth mewn Chwaraeon Ystrad Mynach.

Hyd yma, mae gennym hyd at 19 o gynlluniau cynhyrchu refeniw yr ystyrir eu bod yn cynhyrchu tua 594kW, gan arbed mwy na 267 o dunelli o garbon bob blwyddyn. Bydd ein cynlluniau paneli solar yn lleihau'r defnydd o drydan o'r grid cenedlaethol, yn lleihau allyriadau carbon ac yn diogelu'r safleoedd rhag cynnydd mewn prisiau yn y dyfodol.

8

mlynedd

Amcangyfrifir y caiff araeau paneli ffotoffoltäig eu had-dalu o fewn **8 mlynedd** ac y byddant yn parhau i wrthbwysu'r defnydd o drydan o'r grid am fwy nag **20 mlynedd**.

51

o dunelli

Cyfrifir bod y tri safle yn arbed **51 o dunelli** o allyriadau carbon bob blwyddyn.

20

mlynedd

Byddwn yn hawlio'r Tariff Cyflenwi am **20 mlynedd**. (Bydd hyn yn helpu i wrthbwysu'r cynnydd disgwylidig mewn costau trydan gan sicrhau bod ein hadeiladau yn fwy economaidd yn yr hirdymor).



Drwy system ariannu (sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yn genedlaethol) gwnaethom fuddsoddi mewn goleuadau LED sy'n effeithlon o ran ynnii'n Prif Swyddfa a defnyddio contractwyr lleol i'w gosod a chreu swyddi lleol. Rhagwelir y bydd y cynllun yn sicrhau 84 o dunelli o arbedion carbon y flwyddyn ac yn cynhyrchu 188,046kWh. Bydd y cynllun yn talu amdano'i hun o fewn 8 mlynedd.

Mae ein gweithredoedd bob dydd yn defnyddio ynni ac yn cynhyrchu allyriadau carbon, megis gyrru, hedfan a gwresogi adeiladau. Defnyddir cynlluniau gwrthbwysu carbon i wneud iawn am ein hallyriadau drwy ariannu arbedion carbon deuocsid cyfatebol rywle arall.

Mae cynlluniau gwrthbwysu carbon hefyd yn lleihau ein trethi carbon blynyddol sy'n costio £17.70 y dunnell ar hyn o bryd. Bwriedir i bob un o'r cynlluniau a ddewiswyd gennym wneud y canlynol:

- Lleihau allyriadau carbon.
- Lleihau costau cyfleustodau.
- Lleihau trethi carbon.
- Gwellu'r amgylchedd gwaith a'r amgylchedd addysgu.
- Meithrin gwell dealltwriaeth o faes rheoli carbon a dŵr yn gyffredinol.
- Ceisio cyrraedd targedau mewnol a chenedlaethol ar gyfer lleihau carbon.

Rydym wedi gosod nifer o fannau gwefru cerbydau araf i'w defnyddio dros nos yn ein depos a'n prif swyddfa. Gwnaeth y gwasanaeth Pryd ar Glud dreialu cerbyd trydan yr haf diwethaf ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Sicrhawyd cyllid i osod un neu ddwy uned wefru gyflym ychwanegol yn Nhŷ Penallta. Bydd hyn yn rhoi cymorth pellach i'r gwasanaethau sy'n defnyddio cerbydau trydan, gan y byddant yn gallu gwefru yn ystod y dydd yn ogystal â defnyddio'r manau gwefru araf dros nos.

Rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod pob un o'n ceir fflyd a'n ceir i'w rhannu yn gerbydau trydan ac rydym yn hyrwyddo'r defnydd o feiciau i'w rhannu ar gyfer teithiau byr sy'n gysylltiedig â'r gwaith er mwyn i staff gymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.

ASTUDIAETH ACHOS

Rydym wedi cau pedair ysgol hŷn ac wedi agor dau adeilad newydd o'r raddfa flaenaf yn eu lle (sef Ysgol Gynradd Idris Davies ac Ysgol Uwchradd Islwyn) sy'n llawer mwy effeithlon o ran ynni, gyda llawer o ddeunydd inswleiddio, goleuadau LED, paneli solar a systemau rheoli ynni yn y ddau.

Er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Islwyn yn sicrhau arbedion ynni a charbon net o gymharu â'r ddwy ysgol hŷn y cymerodd eu llea cheir rhai adegau pan na fydd yr adeilad yn defnyddio unrhyw drydan o'r grid.



Yn ogystal â'n prosiect ffotofoltäig ar raddfa fwy, cyflwynwyd tendrau ar gyfer systemau ffotofoltäig ar raddfa fach hyd at 4kW i'w gosod ar 21 o ysgolion. Fodd bynnag, oherwydd cyllid a logisteg dim ond 17 o osodiadau a gwblhawyd, sy'n arbed tua 32 o dunelli o garbon y flwyddyn. Defnyddir y rhain i ddysgu disgyblion Ysgol am ynni cynaladwy.

Beth yw ein sefyllfa nawr?

Y risg yn y dyfodol yw y bydd yn anodd dod o hyd i arian i gefnogi prosiectau ac ni wnaethom fwrw ymlaen â phob un o'r prosiectau a adolygwyd, am ein bod wedi gwrthod chwe phrosiect posibl ar sail lefelau gwael neu isel o feini prawf ad-dalu.

Nid yw'r amcan hwn yn mynd rhagddo ar ei ffurf bresennol am fod cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd yn parhau i gael eu prif ffrydio o fewn blaenoriaethau eraill. Er enghraifft, mae lleihau carbon yn ystyriaeth o fewn ein hamcanion Tai a Thrafnidiaeth newydd. Mae gwaith yn parhau ar gyflwyno cerbydau trydan, sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o feiciau a lleihau carbon drwy wneud llai o ddefnydd o ynni a rhaglen codi ymwybyddiaeth. At hynny, rydym yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau y dywedodd pobl eu bod yn bwysig iddynt yn y Cynllun Corfforaethol newydd.



AMCAN LLESIANT 5

Buddsoddi yng nghartrefi'r Cyngor er mwyn trawsnewid bywydau a chymunedau drwy gymryd camau i sicrhau y caiff safon a chyflwr ffisegol ein stoc dai eu gwella a'u cynnal i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru gan helpu i wella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn y cartrefi hynny

Dewiswyd hyn am y rhesymau canlynol

Ymhlith rhai o'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod mae fforddiadwyedd hirdymor tai, effeithiau incwm isel, tlodi tanwydd a gwella ansawdd tai yn y sector cymdeithasol. Mae tai fforddiadwy a diogel yn bwysig y tu hwnt i frics a morter, gellir diystyru'r manteision a all ddeillio o raglenni tai sy'n canolbwyntio ar y gymuned o ran arbed costau, cynhyrchu incwm a datblygiad economaidd lleol. Mae'r rôl y gallai tai ei chwarae o fewn rhaglenni dileu tlodi yn dechrau cael ei chydabod yn fwy a dangosir hyn yn y cysylltiadau â'n hamcan 'trechu tlodi'. Mae tai gweddus, fforddiadwy yn bwysig i deuluoedd ac yn diwallu angen dynol sylfaenol am gysgod, ond maent hefyd yn cyfrannu at sicrhau llesiant rhieni a phlant. Dengys astudiaethau fod plant mewn tai sefydlog yn gwneud yn well yn yr ysgol a'i bod yn llai tebygol y terfir ar eu haddysg am eu bod wedi gorfod symud tŷ yn erbyn eu hewyllys. Gall tai da leihau straen a sicrhau y bydd pobl yn cael llai o broblemau corfforol a phroblemau iechyd meddwl, felly bydd rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn yn dod â llawer o fanteision i'n dinasyddion. Mae sicrhau cyflenwad o dai da yn ateb y galw ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn rhaglen flaenllaw bwysig a fydd yn rhoi hwb i'r economi leol. Pennwyd uchelgais y byddai arian a gaiff ei wario ar wella cartrefi yn sicrhau manteision y tu hwnt i'r brics a'r morter, ac y byddai'n dod â manteision

ehangach o ran adfywio'r ardal, er enghraifft cynnal swyddi lleol a chynnig cyfleoedd datblygu sgiliau a hyfforddi.

Sut y gwnaethom berfformio

Credwn fod yr amcan hwn wedi'i gyflawni'n rhannol am ein bod wedi gwneud cynnydd rhesymol yn ystod y flwyddyn o ran ein rhaglen fuddsoddi i sicrhau bod ein holl stoc tai cymdeithasol yn cyrraedd SATC erbyn 2020.

Mae'r buddsoddiad hwn hefyd wedi'i ddefnyddio i dargedu cymorth i fusnesau, hyfforddiant, cyflogaeth a'r economi leol yn gyffredinol, yn ogystal â gwella safonau yng nghartrefi ein tenantiaid.

Fodd bynnag, am fod y gwaith gwella cartrefi sydd ei angen mor gymhleth, mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni gan ddefnyddio dull fesul cam, nad yw'n targedu 'unedau cartref cyfan' ar un tro. Felly, ni fu'n bosibl i ni sicrhau 'cydymffurfiaeth cartref cyfan' yn ystod blynyddoedd cynnar y rhaglen.

Wrth i'r dull hwn o weithio fynd rhagddo a gorgyffwrdd (fesul ardal), gwelir cynnydd graddol amlwg mewn 'cydymffurfiaeth uned cartref cyfan' wrth i ni symud tuag at flynyddoedd olaf y rhaglen.

Mae'r gwaith mewnol wedi mynd rhagddo'n dda yn unol â'r rhaglen arfaethedig ond mae'r gwaith mewnol wedi llithro dros y tair blynedd flaenorol oherwydd nifer o anawsterau megis argaeledd adnoddau a deunyddiau, argaeledd contractwyr (perfformiad

contractwr a chontractwr a roddodd y gorau i fasnachu), y gallu i fynd i mewn i eiddo yn brydlon a thywydd gwael megis eira ym mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018. Ar nodyn cadarnhaol, mae gweithgarwch cysylltu a lefelau boddhad tenantiaid â'r gwaith mewnol yn dal i fod yn dda gyda chyfraddau boddhad uchel ymhlith cwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw gweithgarwch cysylltu a boddhad tenantiaid â gwaith allanol wedi bod yn dda oherwydd cymhlethdodau a achoswyd gan oedi cyn darparu gwasanaethau fel y nodwyd uchod.

GWAITH MEWNOL

73%

Mae 72% o'r stoc dai bellach yn cyrraedd SATC = 7806 eiddo



86%

Boddhad â gwaith mewnol

1800

o arolygon

Allan o oddeutu 4000 a anfonwyd yno bu oddeutu 1800 dchweliadau syfrdanol

Mae gan y Cyngor stoc dai o

10,801 o gartrefi ac oddeutu 13,000 o denantiaid

GWAITH ALLANOL

46%

Mae 46% o'r stoc dai yn cyrraedd SATC = 4969 eiddo

70%

Boddhad â gwaith allanol

(yn seiliedig ar ymatebion rhwng Medi-Rhag 17)

Anfonwyd oddeutu 267 o arolygon allan, o'r 79 a ddychwelwyd roedd 55 yn fodlon

Ein Buddsoddiad Arfaethedig gweth £166miliwn

£166m

Yn ogystal â'r rhaglen gwelliannau SATC brif ffrwd, mae 'addasiadau' ychwanegol wedi'u gwneud i gartrefi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Allan o tua 4000 o arolygon a ddosbarthwyd dychwelwyd 1800. ac rydym wedi cwblhau 1,713 o addasiadau er mwyn diwallu anghenion penodol y tenantiaid ers i'r rhaglen ddechrau yn 2013.

Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft; addasiadau i ystafelloedd ymolchi, rampiau, ceginau arbenigol megis ceginau ac ystafelloedd ymolchi 'Visually Better' Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall i denantiaid â nam ar eu golwg, a gosod dyfeisiau trydanol megis lifftiau.

ASTUDIAETH ACHOS

Y Sefyllfa: mae Rowan Place yn ystad a leolir yng ngogledd Rhymney o fewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Twyn Carno 1. Twyn Carno 1 yw'r ardal fwyaf difreintiedig ond un ym mwrdeistref sirol Caerffili, ac yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, mae o fewn y 10% uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru mewn perthynas ag incwm, cyflogaeth, addysg a diogelwch cymunedol. Mae yn y 6ed safle yn y mynegai cyfan.

Roedd Rowan Place yn ardal a nodweddiad gan lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, camdefnyddio cyffuriau ac alcohol a thenantiaethau byrdymor. Roedd yr amgylchedd uniongyrchol yn wael a dim ond ychydig iawn o fannau awyr agored personol a oedd gan y trigolion. Roedd y mannau awyr agored a oedd ar gael yn cynnwys lleiniau o laswellt wedi'u hesgeuluso nad oeddent yn cael eu defnyddio, lleoedd parcio a thramwyfeydd a oedd wedi'u cau er mwyn atal ymddygiad troseddol, ond a ddaeth yn fanged ar gyfer sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ddiweddarach.

Roedd un ardal benodol ar yr ystad yn cael ei hystyried yn 'ardal waharddedig'. Roedd yn gartref i bobl sengl a theuluoedd symudol a oedd yn wynebu heriau penodol, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cofnodion troseddol a phroblemau yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol. O ganlyniad, roedd darpar denantiaid yn gwrthod cynigion llety a oedd yn golygu bod nifer fawr o eiddo gwag. Yn ogystal ag annog ymddygiad gwrthgymdeithasol, cafodd yr eiddo gwag 'hirdymor' hyn effaith negyddol ar estheteg yr ardal hefyd. Roedd gan yr ystad 80 eiddo, yr oedd cyfran fawr (48) ohonynt yn fflatiau.

hyn a wnaethom: Gwnaed gwelliannau mwy sylweddol i gartrefi tenantiaid y cyngor yn Rowan Place er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd SATC; roedd hyn yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd newydd, gwella systemau gwresogi, ailwifro trydanol, toeau newydd ac inswleiddio waliau allanol. Buddsoddiad gan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

Roedd arian o'r gronfa Trechu Tlodi hefyd wedi'i gwneud yn bosibl i waith gael ei wneud ar gartrefi preifat yn Rowan Place, gan leiha'u tlodi tanwydd i bawb tra'n gwella estheteg yr ystâd gyfan ar yr un pryd. Ymgysylltwyd yn helaeth â'r gymuned leol drwy gydol y rhaglen adfywio a chwaraeodd rôl allweddol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gwelliannau amgylcheddol ehangach ar yr ystad

Yn hytrach na dim ond cynnal rhaglen gwella cartrefi yn Rowan Place, roedd Is-adran Tai'r cyngor yn barnu bod hwn yn gyfle i adfywio'r ardal ar raddfa lawer ehangach. Cydnabu hefyd fod cydweithio ag asiantaethau partner yn allweddol i gael y budd mwyaf posibl o'r buddsoddiad er mwyn sicrhau manteision ehangach i'r gymuned leol a gadael gwaddol parhaus.

Defnyddiwyd yr arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu Canolfan Adnoddau Hafod Deg ar Stryd Fawr Rhymni; creu canolfan gymunedol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau economaidd a wynebir yn lleol.

Defnyddiwyd dulliau newydd o farchnata fflatiau gwag ar yr ystad, gan gynnwys defnyddio 'Rightmove'. At hynny, cyflwynwyd 'polisi gosod sensitif' ar gyfer yr ardal er mwyn sicrhau cymysgedd cytbwys o ddeiliaid a chymuned fwy cynaliadwy.

Y manteision oedd:

- 4 prentisiaeth a 10 cyfle cyflogaeth newydd yn ystod y cam adeiladu.
- 72 o gartrefi a wnaed yn fwy effeithlon o ran ynni drwy osod boeleri newydd ynddynt ac inswleiddio eu waliau allanol.
- Cafodd 79 o bobl gymorth i gael cyflogaeth drwy gymorth rhaglenni Lift a Chymunedau am Waith.
- Mae 180 o bobl wedi dilyn cyrsiau
- cysylltiedig â chyflogaeth (gan gynnwys cynnal a chadw tiroedd yn Rowan Place a thrwy brosiect 'Men in Sheds' a gyflawnwyd o Hafod Deg).
- Mae 345 o bobl yr ystyriwyd eu bod yn economaidd anweithgar wedi manteisio ar y gwasanaethau a leolir yn Hafod Deg.
- Amcangyfrifir bod 15 o bobl wedi defnyddio Gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Arbenigol Gwent (GSSMS).
- fentrau wedi'u hanelu at addysg a hyfforddiant.
- 57 o fentrau wedi'u hanelu at wella iechyd a llesiant.
- Wyth menter wedi'u hanelu'n benodol at gefnogi pobl ifanc.
- 370 o bobl yn defnyddio gwasanaethau allgymorth y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Canfyddiadau'r digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar ôl cwblhau'r rhaglen yn Rowan Place oedd bod;

Dywedodd 71% o'r trigolion eu bod yn fodlon iawn ar y cyfan gyda'r gwelliannau; dywedodd y 29% sy'n weddill eu bod yn fodlon.

100% o'r trigolion yn y digwyddiad wedi dweud eu bod yn teimlo'n well am Rowan Place ers i'r rhaglen wella gael ei chwblhau.

100% o'r rhai a ymatebodd wedi dweud bod y gwelliannau wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau bob dydd.

79% o'r trigolion a oedd yn bresennol yn y digwyddiad wedi nodi bod eu biliau ynni wedi lleihau o ganlyniad i welliannau allanol.

93% o'r rhai a ymatebodd wedi dweud bod lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau yn Rowan Place ers i'r rhaglen adfywio gael ei chyflawni.



Mae rhaglen SATC yn parhau i fod yn ariannol hyfyw, ac mae'n debygol y bydd angen benthyca rhywfaint o arian tua diwedd y rhaglen. Ers dechrau rhaglen SATC, hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2017/18, ein buddsoddiad wedi'i gynllunio oedd £166 miliwn ac rydym wedi gwario mwy na £110 miliwn.

Wrth wneud gwelliannau i gartrefi, rydym wedi ystyried gwelliannau i amgylcheddau lleol a chymunedau ehangach o amgylch y cartrefi. O dan Raglen Amgylcheddol SATC caiff tua £10 miliwn ei fuddsoddi yn ystadau'r cyngor ledled y fwrdeistref, er enghraifft gyda chyfres o sesiynau casglu sbwriel, gweithgarwch adnewyddu dodrefn cyhoeddus, cyfleusterau storio biniau cymunol a lleoedd parcio ychwanegol mewn rhai ardaloedd.

Yn 2017, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru raglen adolygu a chyflwynodd gyfres o argymhellion i'r Cyngor. Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu ar yr argymhellion hyn er mwyn gwella'r ffordd y caiff y rhaglen ei chyflawni ymhellach. O ganlyniad, lluniwyd cynllun gweithredu ac rydym wedi gwneud cynnydd da o ran ei gwblhau.

Beth yw ein sefyllfa nawr?

Mae'r rhaglen yn heriol o hyd, ond mae'r cynnydd gwell a sicrhawyd drwy gydol 2017/18 (gyda rhai trefniadau newydd a gyflwynwyd i sicrhau momentwm) wedi gwella'r cyfle i i gyflawni rhaglen SATC yn llawn a chyrraedd y safon erbyn 2020.

Rydym wedi cadw'r amcan hwn ac mae bellach yn rhan lai o'n Hamcan Llesiant yn ein Cynllun Corfforaethol 2018-2023. Mae'r amcan newydd yn fwy cyfannol ac yn gwneud cysylltiadau â manteision cymunedol ehangach, o ddarparu prentisiaethau i'r ffordd rydym yn helpu pobl i gadw eu tenantiaethau drwy amrywiaeth o waith i wella iechyd meddwl, dileu tlodi tanwydd, sicrhau bod pobl yn cael budd-daliadau a hyrwyddo cartrefi fforddiadwy.



Cymharu Perfformiad 2017/18

Bob blwyddyn mae pob un o'r 22 o Awdurdodau ledled Cymru yn cyflwyno set o ddata a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) i Data Cymru. Mae Data Cymru yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn helpu awdurdodau i gymharu eu perfformiad. Ni ellir cymharu pob mesur am fod y ffordd y cânt eu cyfrifo yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae 20 o fesurau y gellir cymharu 18 ohonynt ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.



Mae **8** o 18 dangosydd PAM Caerffili yn y chwarteri uchaf o gymharu â Chymru, mae rhai o'r rheini yn cynnwys:



1af yng Nghymru am lwyddo i atal 75.7% o'r 570 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd rhag mynd yn ddigartref.



3ydd yng Nghymru am glirio sbwriel a dipiwyd yn anghyfreithlon gan drigolion ledled Caerffili mewn 5 diwrnod gwaith. Rydym yn dal i fod yn y chwarter uchaf ar 99.8%.



6ed yng Nghymru am gyflwr ein prif ffyrdd B ar 3.6%. Ledled Cymru roedd 4.3% o'r holl ffyrdd B mewn cyflwr gwael.



9fed yng Nghymru am fod 96.4% o'r priffyrdd a archwiliwyd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid, o gymharu â Chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 95.8%.



Er i nifer yr ymweliadau â'n llyfrgelloedd ostwng o'r 4ydd i'r 11eg safle yng Nghymru mae'n dal i fod yn y chwarter uchaf.



Mae **10** o'n 18 dangosydd PAM y gellir eu cymharu yn y chwarteri isaf o gymharu ag awdurdodau eraill ledled Cymru, ac mae rhai o'r rheini yn cynnwys:



21ain yng Nghymru am bresenoldeb mewn ysgolion Uwchradd sydd 0.8% islaw cyfartaledd Cymru Gyfan, sef 94.1% (er i bresenoldeb mewn ysgolion cynradd godi unsafle i'r 16eg safle).



21ain yng Nghymru i lawr o'r 17eg safle am nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl. (292 o ddiwrnodau o gymharu â Chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 213)



***20fed yng Nghymru** i lawr o'r 16eg safle am nifer yr ymweliadau â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth
*Canolfannau a gaewyd oherwydd gwaith adnewyddu.

Nid yw dangosyddion Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cynnwys am nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyhoeddi data perfformiad eto am eu bod yn newydd ac yn destun gwiriadau dilysu ym mhob awdurdod.

Bob blwyddyn rydym yn dadansoddi ein perfformiad yn erbyn y set ddata hon er mwyn gweld ble y gellir gwneud gwelliannau. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am berfformiad mewn amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol yn **www.mylocalcouncil.info**

Rheoli eich Arian 2017/18

Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal gydag 8,767 o staff yn darparu tua 600 o wasanaethau i'n cymunedau. Rydym hefyd yn cynnal cynnwys 89 o ysgolion, 10 canolfan hamdden ac 18 o lyfrgelloedd. Ariennir y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol hyn o gyllidebau Refeniw a Chyfalaf y Cyngor, a ddaeth i gyfanswm o fwy na £434 miliwn ar gyfer 2017/18.

2017/18

£434
Miliwn

Mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn cymeradwyo ei gyllidebau ar sail cylch cynllunio ariannol 5-mllynedd, sy'n ystyried tueddiadau a phatrymau gwario hanesyddol, mentrau cenedlaethol a lleol ac argaeledd ffynonellau arian lluosog, y mae rhai ohonynt yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

Yn sgil y rhaglen gyny barhaus a'r galw cynyddol am nifer o wasanaethau, mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer Llywodraeth Leol wedi bod yn heriol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod rhwng 2008/09 a 2017/18 mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion o £82.16m er mwyn mynd i'r afael â lleihad mewn cyllid a phwysau cost anochel. Nid oedd hon yn dasg hawdd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r her mewn modd rhagweithiol a darbodus ac wedi cytuno'n flaenorol ar nifer o egwyddorion cynllunio ariannol er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau.

Mae'r egwyddorion hyn wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar ac maent bellach fel a ganlyn:

- Byddwn yn ceisio diogelu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed gan barhau hefyd i werthuso pob gwasanaeth arall.
- Byddwn yn cyfyngu effaith toriadau ar wasanaethau rheng flaen lle y bo'n bosibl gan barhau hefyd i leihau gwariant ac ymchwilio i gyfleoedd i gynhyrchu ffynonellau newydd o incwm.
- Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu tymor hwy o ran cynllunio ariannol sy'n ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol.
- Bydd angen i ni dderbyn na fyddwn yn gallu cynnal y lefelau presennol o wasanaeth ond byddwn yn cyflwyno ffyrdd mwy arloesol o weithio drwy ddefnyddio technolegau newydd.
- Byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn deall eu hanghenion ac ystyried opsiynau i ddarparu rhai gwasanaethau drwy gydweithredu, partneriaethau, ymddiriedolaethau cymunedol ac ati er mwyn sicrhau bod cymunedau yn parhau i fod yn gydnerth ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Yn 2017/18, gwelodd y Cyngor gynnydd bach 0.12% yn y cyllid a gaiff gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bu'n rhaid iddo wynebu ystod o bwysau cost a gwasanaeth anochel ychwanegol hefyd. O ganlyniad i'r pwysau hyn, cytunodd y Cyngor ar arbedion gwerth cyfanswm o £9.046m ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Dewiswyd yr arbedion ar y sail na fyddent yn cael llawer o effaith ar wasanaethau rheng flaen ac y byddent yn diogelu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.

O ble y daw ein harian?

Daw'r rhan fwyaf o'r arian a gaiff y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Cynnal Refeniw.

Yn ogystal â hyn, cawn arian gan ein trigolion a'n busnesau ar ffurf Treth Gyngor ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Ardrethi Busnes). Dengys y tabl isod yr incwm a gafwyd ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18.

Incwm	2017/18	
	Cyllideb £m	Gwirioneddol £m
Grant Cynnal Refeniw	205.96	205.96
Ardrethi busnes	57.67	57.67
Treth Gyngor	60.40	62.02
Cyfraniad o'r	1.40	1.40
Cyfanswm (£m)	325.43	327.05

Sut rydym yn gwario ein harian?

Refeniw	2017/18	
	Cyllideb £m	Gwariant £m
gwasanaethau corfforaethol	66.83	59.16
Addysg a dysgu gydol oes	124.76	124.63
Cymunedau	44.01	43.44
Gwasanaethau Cymdeithasol/Diogelu'r	89.73	89.52
Cyfanswm (£m)	325.43	316.75

96.9%

2017/18 casglodd y Cyngor 96.9% o'r Dreth Gyngor a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn.



Gwarged o £1.62m

Mae gweithgarwch casglu Treth Gyngor wedi creu gwarged cyffredinol o £1.62m ar gyfer 2017/18.

Y gyfradd gasglu ar gyfer ôl-ddyledion dros gyfnod nodweddiadol o 3 blynedd yw **99.5%**, sy'n golygu bod y mwyafrif helaeth o drigolion yn talu'n llawn.

Mae'r Cyngor yn rheoli dau brif gategori o wariant, h.y. **refeniw** (costau rhedeg y gwasanaethau o ddydd i ddydd) a **chylalaf** (costau penodol ar gyfer diweddarau a chynnal asedau allweddol a gweithredu prosiectau mawr newydd).

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, cyllideb refeniw'r Cyngor oedd £325.43 miliwn. Yn ystod y flwyddyn mae deiliaid cyllidebau wedi bod yn ymwybodol o'r rhaglen barhaus o gyny cyllidol a chwtogwyd ar wariant mewn sawl maes er mwyn helpu i sicrhau'r arbedion y rhagwelir y bydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r dull darbodus hwn o weithredu wedi sicrhau nifer o arbedion ac, felly, mae tanwariannau yn uwch nag y byddent fel arfer.

Y tanwariant yn y gyllideb refeniw a gofnodwyd ar gyfer 2017/18 oedd £8.68 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys tanwariant o £4.07 miliwn ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai sy'n gyfrif wedi'i glustnodi statudol ar wahân sy'n cynrychioli'r rhent a dalwyd i'r Cyngor am ei stoc dai a'r gwariant i ariannu'r gwaith o gynnal a chadw'r cartrefi hyn.

Caiff tanwariant y Cyfrif Refeniw Tai ei gario ymlaen i 2018/19 a'i ddefnyddio i rannol gyllido'r buddsoddiad gwerth £200m sy'n cael ei wneud gan y Cyngor er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.

Yn 2017/18 cafwyd tanwariant o £0.29m ar gyfer ysgolion. Mae'r tanwariant hwn wedi'i ariannu o falansau cronedig ysgolion sy'n cael eu dal o flynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae Gwariant Cyfalaf yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a chaiff cyllidebau eu dyrannu o ffynonellau arian penodol. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o gyllidebau cyfalaf a gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod 2017/2018.

Cyfalaf	2017/18	
	Cyllideb £m	Gwariant £m
Addysg	13.81	11.94
Priffyrdd	11.4	6.23
Stoc Dai (Cyhoeddus)	53.57	42.21
Grantiau Tai Preifat	3.95	2.42
Gwasanaethau	3.51	0.28
Cymunedol a Hamdden	3.52	1.00
Arall	19.33	6.25
Cyfanswm (£m)	109.09	70.33

Mae'r tanwariant cyfalaf o £38.8m ar gyfer 2017/18 i'w briodoli'n bennaf i oedi wrth ddatblygu cynlluniau a chafodd yr arian hwn ei gario drosodd i flwyddyn ariannol 2018/19 fel y gellir cwblhau cynlluniau.

Ceir manylion llawn tanwariant 2017/18 ar gyfer yr Awdurdod ar ein gwefan yn www.caerffili.gov.uk

Sut rydym yn gweithio i wella cydraddoldeb a sicrhau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ar ôl cyfnod o weithgarwch datblygu dwys, eleni lansiodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ei Gynllun Llesiant pum mlynedd yr ydym yn bartner allweddol ynddo ynghyd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Nododd y Cynllun amcanion y bwriedir iddynt wella'r fwrdeistref sirol ar gyfer ei thrigolion a sicrhau bod BGC Caerffili yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni nodau llesiant Cymru.


Mae i'r Cynllun Llesiant bedair thema sef, Newid Cadarnhaol, Dechrau Cadarnhaol, Pobl Gadarnhaol a Lleoedd Cadarnhaol. Rydym wedi datblygu Cynllun Cyflawni sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob un o'r themâu cyffredinol hyn.

Mae pedair sylfaen a elwir yn Alluogwyr, sef pethau sy'n fodd i gyflawni diben neu'n ffordd o weithio i helpu i gyflawni camau gweithredu cynaliadwy. Y pedwar Galluogydd yw:

1. Cydweithio – rhwng pob sefydliad partner er mwyn lleihau dyblygu a rhannu adnoddau a chydgyssylltu gwaith er budd y cyhoedd.
2. Cyfathrebu ac ymgysylltu – er mwyn i ni gyfathrebu a rhannu negeseuon ar y cyd.
3. Caffael a chomisiynu – er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio i sicrhau gwerth am arian ar draws prosesau prynu ar y cyd a sicrhau'r.
4. Rheoli asedau – gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ar y cyd ac mewn ffyrdd sy'n lleihau'r defnydd o ynni.

Mae pum Maes Gweithredu ar gyfer cyflawni ar draws y sector cyhoeddus, sef:

1. Y Dechrau Gorau mewn Bywyd – buddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd plentyn.
2. Gwirfoddoli a phrentisiaethau – datblygu rhaglen wirfoddoli gydgysylltiedig a sefydlu rhaglen brentisiaethau i bobl o bob oedran.
3. Lechyd a llesiant da – gwella trefniadau cydweithio gyda phwyslais ar atal heriau iechyd nawr ac yn y dyfodol.
4. Cymunedau cydnerth, mwy diogel – cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig i fod yn fwy cydnerth a'u helpu i'w helpu eu hunain, helpu partneriaid yn y sector tai i ddarparu cartrefi cynaliadwy, creu cymunedau diogel a hyderus.
5. Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol lleol – diogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol, gan annog cymunedau i gyfranogi a dileu



Rydym bellach yn datblygu ein cynlluniau gweithredu a byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar y ffordd rydym yn cyflawni'r cynlluniau hyn ac, yn bwysicach fyth, y gwahaniaeth y maent yn ei wneud.

Yn dilyn lansio'r Cynllun, ein blaenoriaeth nawr ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yw canolbwyntio ar ddefnyddio'r diwylliant o fewn y sefydliad i fanteisio i'r eithaf ar y 'pum ffordd o weithio' (isod) a'u hymgorffori'n llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i bobl er mwyn ymgorffori'r egwyddorion cynaliadwy yn eu meddylfryd.

Y pum ffordd o weithio yw:

1. Cynnwys
2. Cydweithredu
3. Hirdymor
4. Integreiddio
5. Atal

Mae gwaith arall eleni wedi canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon a cheir rhagor o wybodaeth am y cynnydd rydym wedi'i wneud yn ein Hamcan Llesiant 4.

Rydym hefyd yn cynnal gweithgareddau megis cynnig brecwast am ddim yn ystod Wythnos Genedlaethol y Beic, er mwyn annog staff i roi cynnig ar deithio i'r gwaith ar feic.

Mae lechyd yr Amgylchedd wedi cefnogi Diwrnod Cenedlaethol Aer Glân er mwyn annog staff i feicio/cerdded i'r gwaith neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn helpu i annog pobl i roi cynnig ar ddulliau eraill o gymudo.

Rydym yn darparu beiciau trydan (a beiciau arferol) o dan ein Cynllun Aberthu Cyflog 'Beicio i'r Gwaith', a gafodd ei ail-lansio'n ddiweddar gyda Cylce Solutions, ein darparwr newydd.

Rydym yn gweithio tuag at integreiddio cerbydau trydan yn ein fflyd ac wedi treialu cerbydau trydan i'w rhannu. Mae gennym feiciau i'w rhannu ar gyfer teithiau byr sy'n gysylltiedig â'r gwaith a chawodydd a chyfleusterau storio.

Gwnaethom ddechrau partneriaeth rhyngom ni, Sirhowy Valley Honeybee Company ac Ysgol Gynradd Ynysddu a chyflwyno cwch gwenyn rhyngweithiol fel ffordd o addysgu pobl drwy eco-ysgolion am bwysigrwydd gwenyn fel peillwyr.

Mae rhagor o gychod gwenyn wedi'u gosod ar do Prif Swyddfa'r Cyngor yn Nhŷ Penallta ac yn 2017 gwnaethant ddathlu eu penblwydd cyntaf.



ASTUDIAETH ACHOS

Dathlodd y gwenyn mêl sy'n byw ym mhencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn Nhŷ Penallta, eu penblwydd cyntaf yn eucartref.

Buom yn gweithio gyda'r Sirhowy Valley Honeybee Company er mwyn helpu i gynyddu poblogaeth y gwenyn yn y fwrdeistref sirol, gan helpu i fynd i'r afael â'r effaith y mae'r newid yn yr hinsawdd wedi'i chael arnynt. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, cafodd yr 80,000 o wenyn mêl a gafodd eu symud i diroedd Tŷ Penallta ym mis Awst 2017 eu hadleoli i do Tŷ Penallta. Bydd adleoli'r gwenyn mêl i do Tŷ Penallta yn rhoi cyfle i'r gwenyn chwilota am blanhigion yn yr ardal leol a sicrhau bod y cychod yn ddiogel. Bydd y gwenyn yn hedfan hyd at 3 milltir i ffwrdd o'u cwch ac mae pob gwenyn yn ymweld â thua 3,000 o flodau mewn un diwrnod, gan barhau i ymweld â'r un ardal nes y bydd yr holl neithdar wedi'i gasglu.

Mae'r gwenyn wedi gwella tiroedd Tŷ Penallta drwy beillio'r planhigion a'r llystyfiant a geir yno ac wedi cynhyrchu tua 50lb o fêl, a werthir i'r staff yn Nhŷ Penallta. Caiff y jariau mêl eu dychwelyd a'u hailgylchu i'w hailddefnyddio gan y Sihowy Valley Honeybee Company, sy'n fenter gymdeithasol.*

Fel rhan o'r prosiect, mae gweithdai 'ymwybyddiaeth o wenyn' hefyd wedi'u cynnal er mwyn addysgu staff am bwysigrwydd gwenyn a bywyd y tu mewn i'r cwch, yn ogystal â gwybodaeth ymarferol am sut y dylent ymddwyn pan fyddant yn agos at y gwenyn.

**Mae menter gymdeithasol yn fusnes sy'n newid y byd er gwell. Fel busnesau traddodiadol eu nod yw gwneud elw (neu gallant fod yn fenter nid-er-elw), ond yr hyn y maent yn ei wneud gyda'u helw sy'n eu gosod ar wahân drwy ailfuddsoddi neu roi'r elw i sicrhau newid cymdeithasol cadarnhaol*



Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gydraddoldeb 2017/18

Rydym wedi gweithio i wella'r ffordd rydym yn mynd ati i ddarparu mwy o ddewis o ran y Gymraeg, ac rydym yn parhau i wneud hynny, ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran y Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd. Cofrestrwyd 141 o ddysgwyr newydd a chynhaliwyd mwy na 135 o gyrsiau blasu a hirdymor. Byddwn yn diweddarau ein Canllawiau ar Recriwtio a Dethol er mwyn rhoi gwybodaeth gliriach i reolwyr, pan fyddant yn recriwtio, am gynnal Asesiad o Sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau y caiff mwy o siaradwyr Cymraeg eu cyflogi.

Yn 2017/18 collwyd 31 o aelodau o staff Cymraeg eu hiaith ar adeg pan fyddem, yn ddelfrydol, yn cynyddu nifer yr aelodau o staff Cymraeg eu hiaith er mwyn ein helpu i ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol, bu cynnydd bach yn nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant Cymraeg, o 59 i

74. Mae'r nifer yn cynyddu'n sylweddol hyd yma ar gyfer 2018/19.

Weithiau cawn gwynion ynghylch y defnydd o'r Gymraeg, a defnyddir y rhain i wneud gwelliannau. Er enghraifft, cawsom gŵyn ynghylch arwyddion a chyhoeddiadau dros yr uchelseinydd mewn llyfrgelloedd a oedd wedi torri dwy o Safonau'r Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell bellach wedi archwilio pob un o'i arwyddion ac wedi gosod arwyddion newydd yn lle unrhyw rai nad oeddynt yn cydymffurfio â'r Safonau ac wedi sicrhau bod pob cyhoeddiad i'r cyhoedd a wneir dros uchelseinydd bellach yn ddwyieithog.

Maes arall lle y cafwyd gwelliant oedd y tanysgrifiad electronig i fwletinau e-bost gov.delivery. Gofynnwyd i danysgrifwyr ein hysbysu am eu dewis iaith ac erbyn hyn mae gennym restr o danysgrifwyr Cymraeg, sydd wedi cynyddu 101.9% o gymharu â'r llynedd. Ar hyn o bryd mae gennym 319 o danysgrifwyr sydd am dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ac mae'r nifer hon yn cynyddu.



Rydym wedi dathlu nifer o ddyddiadau pwysig, sef:

- Pride Cymru (Awst 2017)
- Diwrnod Shwmae (Hydref 2017)
- Black History Month (Hydref 2017)
- Diwrnod Cofio'r Holocost (Ionawr 2018)
- Mis Hanes LGBT (Chwefror 2018)
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (Mawrth 2018)

Yn ogystal â'r Gymraeg rydym wedi darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant ac addysg mewn pynciau megis Gwrthgaethwasiaeth, Iaith Arwyddion Prydain, ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, ymwybyddiaeth ofalgar a Prevent (rhaglen gwrthderfysgaeth i atal radicaleiddio).

Mynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall yw'r unig adnodd cenedlaethol a ddefnyddir i feincodi cynnydd o ran sicrhau bod mesurau ar waith a bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i gefnogi pobl ifanc Lesbuaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol sy'n byw yn y gymuned leol. Mae'n ffordd wych o ddangos arfer da yn ogystal â nodi a deall y bylchau lle mae angen gwella.

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wybodaeth i'r Mynegai Cydraddoldeb Addysg am y tro cyntaf yn 2016 pan gawsom gydnabyddiaeth arbennig am y gwaith roeddem wedi'i wneud i fynd i'r afael â bwllo homoffobig, biffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Y flwyddyn honno, CSBC oedd yn y safle 1af o blith y 10 awdurdod lleol yng Nghymru a gyflwynodd ffurflen ac yn yr 21ain safle yn y DU

Unwaith eto yn 2017 ni oedd yn y safle 1af o blith yr awdurdodau lleol yng Nghymru a hefyd yn yr 21ain safle yn y DU am yr ail flwyddyn.


I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.stonewall.org.co.uk

Datganiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2017

Eleni oedd y flwyddyn gyntaf roedd deddfwriaeth y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi eu cyflog yn ôl rhyw a chyhoeddwyd ein datganiad cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Nododd y data fod llawer mwy o ferched na dynion yn dal swyddi ym mhob chwarter o'r data am fod gweithlu'r Cyngor yn cynnwys merched yn bennaf.

Mae'r Cyngor yn hyderus nad yw'r blwch cyflog rhwng y rhywiau i'w briodoli i'r ffaith ei fod yn talu cyflogau gwahanol i gyflogeion gwrywaidd a benywaidd am wneud yr un gwaith neu waith cyfatebol.




Dengys y data, yn erbyn poblogaeth wrywaidd y gweithlu yn unig, fod 13.34% o'r 2031 o unigolion a gyflogir yn dal swyddi yn y chwarter isaf, fod 23.29% yn yr 2il chwarter, fod 32.94% yn y 3ydd chwarter a bod 30.43% yn y 4ydd chwarter.



Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i'w briodoli i rolau y mae dynion a merched yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd a'r cyflogau a delir am gyflawni'r rolau hyn. Mae'r blwch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel gymdeithasol. Er enghraifft, mae gwaith ymchwil wedi nodi er bod rhieni yn fwyfwy hyblyg, bod y cyfrifoldeb am ofal plant yn dal i gael ei ysgwyddo'n anghymesur gan ferched. Mae'n ffaith o fewn y data hyn fod y mwyafrif helaeth o'r swyddi rhan-amser yn cael eu dal gan ferched ac mai'r swyddi hyn yw'r rhai sy'n denu cyflogau yn y chwartelau isaf.

Er mwyn gweld y datganiad llawn ewch i'n gwefan yn www.caerffili.gov.uk

Mae hyn yn cymharu â 30% o'r 4760 o aelodau benywaidd o'r gweithlu sy'n dal swyddi yn y chwartel iasf, 25.67% yn yr 2il chwartel, 21.62% yn y 3ydd chwartel a 22.71% yn y 4ydd chwartel.



Female

Rhaglen Waith Mynediad i Bobl Anabl

Eleni gwariwyd £104,000 ar nifer o brosiectau gwahanol fel y'u rhestrir;

- **Canolfannau Hamdden** - £13,000 gan gynnwys mynediad gwell i byllau Nofio.
- **Addysg** - £52,000 gan gynnwys Drysau a Rampiau Awtomatig.
- **Cefn Gwlad** - £13,000 sy'n cynnwys Meinciau Picnic Hygyrch.
- **Parciau** - cyfraniad o £5,000 tuag at Doiledau Hygyrch ym Mharc Morgan Jones.
- **Canolfannau Cymunedol** - £8,000 ar welliannau i doiledau hygyrch.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol** - £13,000 a oedd yn cynnwys gwaith i wella mynedfeydd allanol a chanllawiau.

Er mwyn monitro ein cynnydd tuag at wella cynwysoldeb rydym yn llunio Cynllun Cydraddoldeb Blynyddol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r Gymraeg drwy adroddiadau cynnydd bob blwyddyn. Mae'r cynlluniau hyn ar gael ar ein gwefan yn www.caerffili.gov.uk



Yr hyn a ddywedodd ein rheoleiddwyr wrthym

Yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar gyfer 2017/18 (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018) daeth ein rheoleiddwyr i'r casgliad fod y Cyngor “.. yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus”.

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, roedd nifer o gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad “Craffu: Addas ar gyfer y Dyfodol?” Nodir hyn isod.

Ebrill 2017 – Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. *Nododd SAC fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwelliant.*

Tachwedd 2017 – Archwiliad Blynyddol o'r Asesiad o Berfformiad
Daeth SAC i'r casgliad fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau adrodd statudol ac nid oedd unrhyw gynigion ar gyfer gwella.

Rhagfyr 2017 – Llythyr Archwilio Blynyddol 2016/17
Daeth SAC i'r casgliad ein bod wedi cydymffurfio â'n cyfrifoldebau mewn perthynas â llunio adroddiadau ariannol a bod gennym drefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ein defnydd o adnoddau

Gorffennaf 2018 (Adolygiad 2017/2018)
Craffu: 'Addas ar gyfer y Dyfodol?'
Daeth SAC i'r casgliad bod y Cyngor yn rhoi gwerth ar ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ond, er mwyn iddo wella ac ateb heriau yn y dyfodol, fod angen i'r aelodau ganolbwyntio'n fwy ar hyfforddiant, datblygiad a chymorth eryn iddynt ddeall eu rolau craffu yn well a'u cyflawni'n fwy effeithiol.

Mae tri Archwiliad o Berfformiad nas cwblhawyd eto sy'n rhan o'r rhaglen o waith archwilio ar gyfer 2017/18 a chaiff y rhain eu cwblhau ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'w gyhoeddi. Yr archwiliadau hyn yw:

- Adolygiad o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, a ofynnodd am sylwadau gan fwy na 500 o denantiaid a lesddeiliaid ynghylch pa mor fodlon oeddent ar ansawdd y gwasanaethau a gawsant gan raglen Safon Ansawdd Tai Cymru. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2018.
- Gwaith lleol ar ddarparu adborth adeiladol ar ein Bwrdd Gwella Busnes a'r ffordd rydym yn cyflawni ein rhaglenni mawr. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben ym mis Rhagfyr 2018.
- Gwaith dilynol ar b'un a ydym yn cyflawni ein hymrwymadau i gyflawni rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru l uwchraddio cartrefi'r Cyngor i'r safon. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2019.

Bydd SAC yn cyflwyno adroddiad ar y darnau hyn o waith yn ei Hadroddiad Gwella Blynyddol nesaf a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y canlyniadau yn ein Hadroddiad Perfformiad nesaf.

Pwyllgor Archwilio'r Cyngor. Gellir gweld pob un o'n hadroddiadau ar ein gwefan www.caerffili.gov.uk

Sut i gysylltu â ni a sut y gallwch gyfranogi

Mae eich barn a'ch safbwyntiau ar gynnwys ein hadroddiadau perfformiad a'r blaenoriaethau rydym yn eu pennu bob blwyddyn yn bwysig i ni. Rydym yn croesawu eich mewnbwn fel y gallwn barhau i ddarparu gwybodaeth ystyrlon sy'n helpu i'ch hysbysu o ffocws y gwasanaeth, gan sicrhau ein bod yn gweithio ar y pethau sy'n bwysig o ran gwneud gwahaniaeth i chi, ein dinasyddion a'n cymunedau.

Gallwch gysylltu â ni drwy

E-bost: PMU@caerffili.gov.uk neu drwy fynd i'r dudalen we 'Perfformiad y Cyngor' a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

Fel arall, cysylltwch â:

Ros Roberts

Rheolwr Perfformiad

Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol Cyngor


Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta

Ystrad Mynach, Hengoed

CF82 7PG

Ffôn: 01443 864238

E-bost: roberr@caerffili.gov.uk




Gallwch gysylltu â ni drwy'r cyfryngau Cymdeithasol



Gallwch gymryd rhan mewn nifer o ffyrdd. Am fanylion pellach ewch i'n gwefan.

www.caerffili.gov.uk



Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Liz Sharma

Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Hengoed.

Tŷ Penallta,

Ystrad Mynach,

CF82 7PG

Ffôn: 01443 864354

E-bost: sharme@caerffili.gov.uk

Nodiadau

[illegible]

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol ar gais. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan hefyd yn: www.caerffili.gov.uk



CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI